
Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Penodiadau Cyhoeddus

Mawrth 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Penodiadau Cyhoeddus

Mawrth 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mabon ap Gwynfor AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Cynnwys** ........ **1**

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion** ........ **7**

**1. Cefndir** ........ **11**

Cylch Gorchwyl ........ 11

**2. Yr Uned Cyrff Cyhoeddus** ........ **14**

Goruchwyliaeth yr Uned Cyrff Cyhoeddus ........ 14

Amlygrwydd yr uned a'i gwaith ........ 18

Proses Adolygu Deilwredig ........ 24

Ein barn ni ........ 27

**3. Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus** ........ **31**

Ein barn ni ........ 39

**4. Data ar amrywiaeth** ........ **42**

Ein barn ni ........ 53

**5. Gwelliannau i'r broses penodiadau cyhoeddus** ........ **55**

Datblygu cyflenwadau o dalent ........ 55

Y broses recriwtio ........ 57

Y broses ymgeisio ........ 57

"Y grefft" o ymgeisio am benodiadau cyhoeddus ........ 57

Cynwysoldeb y Broses Recriwtio ........ 59

Adborth ar ôl Gwneud Cais/Cyfweliad ........ 60

Taliadau Cydnabyddiaeth ........ 62

Ein barn ni ........ 64

**6. Penodiadau Cyhoeddus gan y Senedd ..... 68**

Penodiadau Cyhoeddus y Senedd ..... 68

Y broses benodi ..... 68

Adolygiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o benodiadau cyhoeddus Comisiwn y Senedd ..... 69

Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Comisiwn y Senedd 2022-26 ..... 71

Rôl y Pwyllgor Cyllid ym mhenodiadau cyhoeddus y Senedd ..... 73

Ein barn ni ..... 74

**7. Gwrandawiadau Cyn Penodi ..... 76**

Ein barn ni ..... 81

**Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar. ..... 83**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae ein hymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru wedi datgelu cyfres o fethiannau yn null Llywodraeth Cymru o ganfod a sicrhau'r ystod ehangaf o ymgeiswyr amrywiol o safon ar gyfer penodiadau yn y sector cyhoeddus.

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, daeth yn amlwg bod methiannau yn y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn gweinyddu'r system Penodiadau Cyhoeddus a hefyd nad oedd goruchwyliaeth Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus Cymru a Lloegr yn effeithiol o ran gwella'r system. Manylir ar y mater penodol hwn yn ein hadendwm i'r adroddiad hwn 'Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru: Comisiynydd i Gymru?'.

Wrth wraidd y methiannau hyn mae Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, sydd â'r dasg o oruchwylio penodiadau cyhoeddus yng Nghymru ond sy'n tanberfformio. Mae rôl a diben yr uned wedi parhau i fod yn ddryslyd ac yn aneglur, a cheir tystiolaeth i awgrymu nad oedd llawer o benodeion cyhoeddus neu'r rhai a oedd yn ymgeisio am benodiadau cyhoeddus yn ymwybodol o fodolaeth yr uned.

Fodd bynnag, canfuom fod y problemau gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn arwydd o broblemau llawer dyfnach o fewn peirianwaith Llywodraeth Cymru. Clywsom dystiolaeth sy'n awgrymu nad oedd amcanion a chamau gweithredu allweddol Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (y 'Strategaeth')[1], a gyhoeddwyd yn 2020 ac a oedd wedi bod yn "flaenoriaeth weinidogol"[2], wedi eu cyflawni a'u bod wedi dod i ben pan ddaeth y strategaeth i ben yn 2023.

Cafodd ein pryderon eu cadarnhau ymhellach wedi inni ddarganfod bod strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru wedi dod i ben ers dros flwyddyn ac na fu unrhyw werthusiad, ymgynghoriad, camau gweithredu, na hyd yn oed gynllun i greu strategaeth newydd i gymryd ei lle.

Mae penodiadau cyhoeddus yn bwysig a dylent roi cyfle i'r rhai o gefndiroedd amrywiol gyfrannu at gyfarwyddo a rheoli gwasanaethau cyhoeddus a dod yn rhan allweddol o'r broses atebolrwydd a llywodraethu. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffafriol i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

---

[1] Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023)
[2] Llywodraeth Cymru - Tystiolaeth Ysgrifenedig, 11 Ionawr 2022

**Mark Isherwood AS,**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei strwythur sefydliadol i asesu a yw symud yr Uned Cyrff Cyhoeddus i'r Hwb Adnoddau Arbenigol yn gwella amlygrwydd yr Uned ac ymgysylltiad â hi, a sut y mae'n gwneud hynny. Dylid rhannu canlyniad yr adolygiad hwn gyda'r Pwyllgor. ....................Tudalen 28

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am gynnydd ac allbynnau'r camau gweithredu sydd ar y gweill i adeiladu rhwydweithiau a chysylltiadau cryfach rhwng yr Uned Cyrff Cyhoeddus ag adrannau perthnasol eraill o Lywodraeth Cymru. ....................Tudalen 28

**Argymhelliad 3.** Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn ymateb i argymhelliad 2, rydym yn argymell y dylai hyn gynnwys diagram/siart er mwyn i'r Pwyllgor weld lle mae'r gwahanol gyfrifoldebau dros benodiadau cyhoeddus (tâl, recriwtio, llywodraethu/ymgysylltu, datblygu/mentora cyflenwad o ymgeiswyr, amrywiaeth a chynhwysiant) yn rhan o beirianwaith y Llywodraeth a sut y mae'r elfennau unigol hyn yn cysylltu â'i gilydd. Dylai'r diagram/siart hwn ddangos uwch swyddog cyfrifol penodedig a'r cyfrifoldeb Gweinidogol cyfatebol ar gyfer pob un o'r elfennau hyn. Dylai'r Llywodraeth hefyd gadarnhau pa uwch swyddog penodedig a pha Weinidog sy'n arwain ar ei pholisi penodiadau cyhoeddus yn gyffredinol. ....................Tudalen 28

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi datganiad clir inni ar y pum maes datblygu a nodwyd yn yr adolygiad thematig o recriwtio byrddau cyrff cyhoeddus. Dylai'r datganiad nodi'n glir pa gamau sydd wedi eu cwblhau neu heb eu cwblhau, gan nodi sut y cwblhawyd y camau gweithredu wedi'u cwblhau ac, os nad ydynt wedi'u cwblhau, pam. ....................Tudalen 28

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ail-frandio ac yn ail-lansio'r Uned Cyrff Cyhoeddus, gan nodi ei rôl a'i diben yn glir a sicrhau ei bod yn gwbl amlwg ac yn rhyngweithio â'r cyhoedd. Dylai hyn gynnwys darparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am ei rôl a'i chylch gwaith, a sicrhau bod hynny ar gael i bob ymgeisydd ar wefan Llywodraeth Cymru. ....................Tudalen 29

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu gwaith i gynyddu amlygrwydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus, gan nodi camau gweithredu clir i gyflawni hyn ac amserlenni ar gyfer pryd y bydd y camau gweithredu'n cael eu cwblhau. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei chynnydd o ran rhoi hyn ar waith. ....................Tudalen 29

**Argymhelliad 7.** Gan fod y strategaeth flaenorol wedi dod i ben ac nad oes unrhyw strategaeth olynol wedi cael ei rhoi ar waith, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gweithredu a Strategaeth Penodiadau Cyhoeddus penodol ac annibynnol sy'n ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant yn ei ystyr ehangaf (gan gynnwys iaith a lleoliad daearyddol), a hynny ar fyrder. Ni fyddai'n dderbyniol, yn enwedig o ystyried bod cynifer o agweddau sylfaenol ar strategaeth 2020-23 eto i'w cyflawni, i ymgorffori'r rhain yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol fel yr awgrymwyd. Fodd bynnag, rydym yn nodi, o ystyried mai dim ond cyfnod byr o Dymor y Senedd sy'n weddill, y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried adfer y strategaeth bresennol tan fis Mai 2026. Credwn nad cynnwys y Strategaeth yw'r broblem, ond y ffaith nad yw ei hymrwymiadau wedi cael eu cyflawni. ........ Tudalen 40

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, yn anfon amserlen at y Pwyllgor hwn yn nodi ei bwriadau a'i therfynau amser pendant ar gyfer adolygu ei strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant a datblygu strategaeth newydd ac yn ei rhoi ar waith. ....... Tudalen 40

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio i'r Pwyllgor pam mai dim ond un cynllun gweithredu blynyddol ac un adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd o dan Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru - Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023) ac, yn ogystal â nodi pa weinidog/swyddog a benderfynodd beidio â sefydlu'r grŵp llywodraethu amrywiaeth a chynhwysiant, cadarnhau pa weinidog neu swyddog a wnaeth y penderfyniad ym mhob bob blwyddyn o'r Strategaeth uchod i beidio â chyhoeddi'r cynllun gweithredu blynyddol ac adroddiad blynyddol, a pham. ........ Tudalen 40

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd nad yw trefniadau llywodraethu a gweinyddu gwael ei strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi cael eu hailadrodd mewn meysydd polisi eraill nac yn cael eu hailadrodd felly. Er mwyn darparu'r sicrwydd hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr o'r holl strategaethau a chynlluniau gweithredu sydd ar waith ynghyd â'r gofynion adrodd ac a ydynt yn cael eu bodloni ai peidio. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu set ddata gyflawn (nid un wedi'i rhannu ar draws sawl darn o ohebiaeth) a chynhwysfawr ar nodweddion amrywiaeth (gan gynnwys iaith a lleoliad) i'r Pwyllgor hwn ar fyrder, fel yr ymrwymodd i'w wneud yn ei strategaeth ar gyfer 2020-2023, ar gyfer <u>pob</u> penodiad cyhoeddus i gyrff <u>Wedi'u Rheoleiddio a Heb eu Rheoleiddio</u>, er tryloywder ac i lywio gweithgarwch yn y maes hwn yn y dyfodol, a

thrwy hynny greu'r llinell sylfaen a addawyd yng Ngham Gweithredu 1, Nod 1 y Strategaeth. ........ Tudalen 53

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bodloni ein cais i gyhoeddi'r adroddiadau "i'w bwrdd" y cyfeiriwyd atynt gan y prif swyddog gweithredu ym mharagraff 166 o'r adroddiad hwn. ........ Tudalen 54

**Argymhelliad 13.** Roeddem yn dal heb ein hargyhoeddi bod digon yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyflenwad o dalent ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella ei dull o annog a chefnogi unigolion i wneud cais am benodiadau cyhoeddus. Gallai hyn gynnwys mwy o gyfleoedd cysgodi a mabwysiadu dull ehangach, mwy cynhwysol o hyrwyddo'r penodiadau sydd ar gael. ........ Tudalen 65

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith i wella ei hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyfystyr ag addasiad rhesymol a mabwysiadu dull rhagweithiol o ddarparu opsiynau lluosog i ymgeiswyr o ran yr addasiadau sydd eu hangen arnynt. Gofynnwn am ddiweddariad ar y gwaith hwn gan gynnwys manylion yr opsiynau sydd ar gael ymhen 6 mis. ........ Tudalen 65

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn gyflymach â'i gwaith i wella hygyrchedd y broses recriwtio ar gyfer penodiadau cyhoeddus a hoffem gael diweddariad ar allbynnau ei gwaith gyda grŵp atebolrwydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol cyn gynted â phosibl. ........ Tudalen 66

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull o ddarparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ar gyfer penodiadau cyhoeddus a gofynnwn i fanylion gael eu darparu inni ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adborth yn gyson a bod hyfforddiant safonol yn cael ei ddarparu i baneli recriwtio ar yr hyn sy'n gyfystyr ag arferion da yn y maes hwn. ........ Tudalen 66

**Argymhelliad 17.** Mae tâl yn amlwg yn rhwystr i fwy o bobl ymgeisio am benodiadau cyhoeddus ac rydym yn argymell ein bod yn cael diweddariad ar gynnydd ac allbynnau adolygiad Llywodraeth Cymru o Dâl Aelodau Bwrdd. ........ 67

**Argymhelliad 18.** Pan wneir ailbenodiadau, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y pwyllgor perthnasol yn nodi'r rheswm/rhesymau dros wneud hynny. ........ Tudalen 82

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i ddatblygu set o egwyddorion cyffredin i lywodraethu'r penodiadau cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt. Dylai'r rhain gynnwys rôl gwrandawiadau cyn penodi, ffurfioli'r broses o rannu gwybodaeth berthnasol ac amserlen briodol i gyflwyno'r wybodaeth hon h.y. un wythnos lawn cyn gwrandawiad cyn penodi. ........ Tudalen 82

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried a ddylai'r protocol presennol gael ei adolygu, ei ddiweddaru a'i godeiddio yn y Rheolau Sefydlog, fel y cytunodd y Llywydd a Mark Drakeford, y Prif Weinidog ar y pryd. Credwn y dylai corff priodol o fewn y Senedd gael rhywfaint o oruchwyliaeth dros y trefniadau ad hoc sy'n amrywio o benodiad i benodiad o ran ymwneud Pwyllgorau â phenodiadau cyhoeddus a arweinir gan Lywodraeth Cymru a chynrychiolaeth aelodau'r Pwyllgor ar baneli penodiadau a arweinir gan Lywodraeth Cymru. ........ Tudalen 82

# 1. Cefndir

**1.** Ar ddiwedd 2021, galwodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (y Pwyllgor) am gyfraniadau ar sut y dylai'r Pwyllgor ymdrin â'r rhan newydd o'i gylch gwaith yn ymwneud â gweinyddiaeth gyhoeddus.

**2.** Ar ddechrau chweched tymor y Senedd, ffurfiwyd y pwyllgor gweinyddiaeth gyhoeddus penodedig cyntaf yn y Senedd, drwy estyniad a wnaed i gylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol.

**3.** Rhoddwyd cyfrifoldeb i'r Pwyllgor dros graffu ar faterion yn ymwneud â pheirianwaith y llywodraeth, gan gynnwys ansawdd a safonau gweinyddiaeth a ddarperir gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Yn debyg i'w ragflaenydd, mae hefyd yn gyfrifol am graffu ar gyfrifon cyhoeddus.

**4.** Er mwyn helpu'r Pwyllgor i ystyried y ffordd orau o gyflawni'r rhan hon o'i gylch gwaith a'r hyn a ddylai fod yn flaenoriaethau iddo, gofynnodd y Pwyllgor am farn ar y canlynol:

- egwyddorion ac arfer gorau ar gyfer craffu ar weinyddiaeth gyhoeddus;
- pa wybodaeth a thystiolaeth y bydd eu hangen ar y pwyllgor er mwyn cadw goruchwyliaeth effeithiol ar weinyddiaeth gyhoeddus; a
- blaenoriaethau y gallai ddymuno eu hystyried.

**5.** Cyfeiriodd sawl ymateb i'r ymgynghoriad at yr angen i graffu ar benodiadau cyhoeddus yng Nghymru, gan awgrymu y dylid canolbwyntio'r ymdrechion ar gynyddu amrywiaeth[3]. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn awgrymu y dylid cynnal gwerthusiadau o effeithiolrwydd Byrddau Cyhoeddus a'u perthynas â rheolwyr eu sefydliadau.

## Cylch Gorchwyl

**6.** Yn ein cyfarfod ar 19 Hydref 2022, cytunwyd i gynnal ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. Pennwyd y Cylch Gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:

[3] Craffu ar Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Weinyddiaeth Gyhoeddus, Rhagfyr 2021

Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r broses penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys lle y gellid gwella hyn er mwyn cynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae'r materion i'w hystyried yn cynnwys y canlynol:

- Rôl yr Uned Cyrff Cyhoeddus ac effeithiolrwydd ei pherthynas â Byrddau Cyrff Cyhoeddus o ran sicrhau trefniadau llywodraethu da a threfniadau effeithiol mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gymorth parhaus i aelodau bwrdd.
- Barn y cyrff corfforaethol hynny y gwneir penodiadau cyhoeddus iddynt ynghylch y broses penodiadau cyhoeddus;
- Rôl y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
- Beth yw'r prif rwystrau i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru? Sut y mae'r rhain yn amrywio yn ôl ffactorau gan gynnwys:
  - Oedran
  - Rhywedd
  - Ethnigrwydd
  - Anabledd
- Pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar hyn o bryd i annog a chynyddu amrywiaeth ymysg ymgeiswyr?
- Sut y gellir gwella'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn cyflawni hyn?
- Sut y gall Llywodraeth Cymru greu proses penodiadau cyhoeddus mwy tryloyw ac agored?
- A oes enghreifftiau o arfer gorau mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol y dylai Cymru ddysgu oddi wrthynt?

**7.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, Llywodraeth Cymru, a Chomisiwn y Senedd. Ymwelodd y Pwyllgor hefyd â'r Comisiynydd Safonau Moesegol mewn Bywyd Cyhoeddus yn yr Alban, sy'n gweithredu fel Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yno, a chyfarfu ag aelodau o Bwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban i drafod Penodiadau Cyhoeddus yn yr Alban.

**8.** Casglodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd farn a phrofiadau bywyd pobl o wahanol gefndiroedd sy'n dal, sydd wedi dal neu wedi gwneud cais am benodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

**9.** Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddeg cyfweliad rhwng 6 ac 17 Chwefror 2023. Nod y cyfweliadau oedd deall y rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

**10.** Cyflwynwyd canfyddiadau ac argymhellion y gwaith hwn i'r Pwyllgor ar 30 Mawrth 2023 a chawsom dystiolaeth lafar gan bum deiliad presennol Penodiadau Cyhoeddus a nodwyd drwy'r broses hon.

**11.** Mae ein hadroddiad yn adlewyrchu lefel y gwaith craffu manwl yr oedd ei angen er mwyn archwilio'n llawn y prosesau a'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â Phenodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. Drwy ein gwaith craffu, rydym wedi darganfod nifer o feysydd sy'n peri pryder ac sydd angen eu gwella ac mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau.

# 2. Yr Uned Cyrff Cyhoeddus

## Goruchwyliaeth yr Uned Cyrff Cyhoeddus

**12.** Mae Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn goruchwylio penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys ymdrechion i gynyddu amrywiaeth. Yn ei thystiolaeth, dywed Llywodraeth Cymru fod yr Uned yn "darparu'r fframwaith ar gyfer llywodraethu a sicrhau atebolrwydd yr holl Gyrff Hyd Braich". Esboniodd Llywodraeth Cymru fod yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn gyfrifol am:

- Benodiadau cyhoeddus a reoleiddir i 50 o sefydliadau gan gynnwys cyrff y GIG, 34 o Gomisiynwyr, cwmnïau a chyrff a noddir;
- Darparu ffynhonnell arbenigedd ar gyfer recriwtio Cadeiryddion ac aelodau Bwrdd gan sicrhau bod y cod llywodraethu ar benodiadau cyhoeddus yn cael ei ddilyn;
- Amrywiaeth a chynhwysiant mewn penodiadau cyhoeddus;
- Tâl a chydnabyddiaeth ariannol; a
- Sicrhau ansawdd hysbysebion ar gyfer penodiadau cyhoeddus a rhoi cyhoeddusrwydd i'r rolau[4].

**13.** At hynny, cysylltiad uniongyrchol cyfyngedig sydd gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus â'r cyrff y gwneir y penodiadau cyhoeddus iddynt ac yn hytrach mae'n gweithio gyda Thimau Partneriaeth sydd wedi'u lleoli yn adrannau'r Llywodraeth "i gynghori ar y broses recriwtio a'i hwyluso"[5].

**14.** Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, cynhaliodd yr Uned Cyrff Cyhoeddus 53 o ymgyrchoedd recriwtio, gan arwain at 60 o benodiadau a 73 o ailbenodiadau i 29 o gyrff cyhoeddus a byrddau iechyd. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle y cynhaliwyd 29 o ymgyrchoedd recriwtio gan arwain at 52 o benodiadau a 15 o ailbenodiadau[6].

**15.** Ym mis Ionawr 2022, dywedodd Llywodraeth Cymru fod yr Uned Cyrff Cyhoeddus:

[4] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 7 Mehefin 2023
[5] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 7 Mehefin 2023
[6] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 7 Mehefin 2023

> *"... wedi cymryd cyfrifoldeb am lunio'r agenda bolisi fel y mae'n ymwneud â phenodiadau cyhoeddus. Mae hyn wedi cynnwys gwneud newidiadau i'r broses benodi, o gyflwyno camau asesu ychwanegol i roi trefniadau ar waith ar gyfer gwrandawiadau cyn penodi"[7].*

**16.** Yn ystod ein hymchwiliad, symudodd yr Uned Cyrff Cyhoeddus o is-adran Prif Swyddog Diogelwch Llywodraeth Cymru i'r Hwb Adnoddau Arbenigol newydd. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig bellach, dywedwyd wrthym mai'r "prif nod yw symleiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau recriwtio ac adnoddau effeithiol ac effeithlon".[8]

**17.** Ymddengys mai dyma'r eildro i'r Uned Cyrff Cyhoeddus gael ei symud mewn dwy flynedd. Nid oedd y dystiolaeth yn nodi beth yw'r berthynas rhwng y Timau Penodiadau Cyhoeddus a'r Uned Cyrff Cyhoeddus ar hyn o bryd, a phwy sy'n gyfrifol am gynhwysiant ac amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus.

**18.** Ar 8 Awst 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau adolygiad thematig ar arferion recriwtio byrddau cyrff cyhoeddus[9]. Ynddo, dywedodd aelodau'r Bwrdd a gymerodd ran yn yr arolwg fod angen mwy o eglurder ynghylch rôl y Tîm Penodiadau Cyhoeddus, y Tîm Partneriaeth a'r Uned Cyrff Cyhoeddus wrth recriwtio aelodau o Fyrddau.

**19.** Fe wnaethom ofyn i Swyddogion pam y digwyddodd hynny a dywedwyd wrthym nad oedd y brif swyddfa ddiogelwch yn gartref naturiol i'r Tîm Cyrff Cyhoeddus, ac y byddai symud y Tîm i ganolfan ragoriaeth recriwtio newydd yn gwneud y canlynol:

> *"allows us to provide synergy between the quality of service that candidates can expect to receive, whether they're applying for a civil service role or whether they're applying for a public appointment, underpinned by a common set of principles around open, fair and merit appointment"[10].*

[7] Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru, 11 Ionawr 2022
[8] Tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth Lywodraeth Cymru, Hydref 2024
[9] Recriwtio byrddau cyrff cyhoeddus: adolygiad thematig: Canlyniad adolygiad o arferion recriwtio'r bwrdd a phrofiad aelodau'r Bwrdd, 8 Awst 2024
[10] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 45

**20.** Pwysleisiodd y Swyddogion fod gwahanol fecanweithiau ymgysylltu a rheolaethau ynghylch recriwtio i'r gwasanaeth sifil, o gymharu â recriwtio i benodiadau cyhoeddus. Er enghraifft, mae comisiynwyr gwahanol yn ymwneud â'r ddwy elfen. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym:

> *"… there is a commonality in the recruitment stage, there's a commonality in how we plan for a vacancy, how we look at the outreach and promotion of those roles, there's a commonality in how we support individuals to sift, interview and evaluate and then onboard, and there's a commonality now with the system, with Cais being the predominant recruitment system that we use across all recruitment"*[11].

**21.** Nodwn fod tîm cyflogau cyrff cyhoeddus bellach yn rhan o hwb cyflogau Llywodraeth Cymru. Mae'r hwb yn cynnwys hwb cyflogau Llywodraeth Cymru, hwb cyflogau cyrff cyhoeddus a gwasanaethau'r gyflogres. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth cyflogres i nifer o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru sy'n helpu i gysylltu cylch gwaith cyflogau Llywodraeth Cymru â chylchoedd gwaith cyrff hyd braich ar gyfer cyrff cyhoeddus[12].

**22.** At hynny, dywedwyd wrthym fod y tîm ymgysylltu a llywodraethu cyrff cyhoeddus bellach yn rhan o Academi Wales, sydd o dan yr ambarél pobl a lleoedd, er mwyn cau'r bwlch sy'n gysylltiedig â rhywfaint o'r cymorth datblygu, mentora a chyfeillio y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i'r cyrff hyd braich hynny[13].

**23.** Nododd y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor a chanlyniadau'r arolwg o Aelodau Byrddau a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad thematig o recriwtio byrddau bryderon ynghylch amlygrwydd y Tîm Cyrff Cyhoeddus a diffyg eglurder ynghylch ei rôl yn y broses recriwtio penodiadau cyhoeddus. Fe wnaethom ofyn i'r Swyddogion amlinellu pa gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â hyn a sut y bydd symud y Tîm i'r Hwb Cyflogau yn gwella hynny.

**24.** Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu fod nifer o gamau ar y gweill i ddatblygu rhwydweithiau a chysylltiadau cryfach â'r Uned Cyrff Cyhoeddus. Clywsom fod gwaith yn cael ei wneud yn fewnol gyda'r Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus, sy'n cysylltu'r Tîm Cyrff Cyhoeddus â'r timau noddi allweddol. Hefyd,

[11] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 45
[12] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 47
[13] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 47

mae'r fforwm arweinwyr cyhoeddus, sy'n cynnwys Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Dywedwyd wrthym fod yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn helpu i drefnu hynny a bod:

> *"… the public appointments process is, really, a collaboration between the public bodies team, who are really looking at the process and running the system; you've got then the sponsorship teams and the organisations themselves, who are then heavily involved in the recruitment of those appointments; and obviously, for a number of those, that also links into these are ministerial appointments, and how they work with the Ministers to ensure we get the right people in the roles"*[14].

**25.** Fe wnaethom nodi'r camau gweithredu hyn a oedd yn anelu at greu gwell cysylltiad o fewn y gwahanol adrannau ac unedau o fewn Llywodraeth Cymru, ond o ran estyn allan a sicrhau gwell dealltwriaeth ymhlith y rhai a allai fod yn rhan o'r broses, gofynnwyd pa mor hyderus oedd Llywodraeth Cymru y bydd y newidiadau y mae wedi'u gwneud yn hwyluso'r ddealltwriaeth a'r ymgysylltu allanol gwell hwnnw.

**26.** Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu fod y gwaith y mae'r tîm wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf; gan gynnwys rhoi adborth i ymgeiswyr, darparu hyfforddiant i'r rhai a fethodd gael eu penodi o drwch blewyn, y banc talent, cynllun prentisiaid bwrdd, oll yn dechrau cael effaith well o ran yr allgymorth y mae'r tîm wedi bod yn gyfrifol amdano[15]. Ychwanegodd:

> *"There's lots more to do. As I said, this is very much work in progress. I think there are one or two signs where we're starting to really move in the right direction, but there's more we can do. They're doing some work currently on things like the webpages—they're not ready yet, but will be, I think, early into next year—again, trying to ensure that we get the right information out there to prospective candidates, and to boards as well"*[16].

**27.** Fe wnaethom nodi bod canfyddiadau'r adolygiad thematig yn adleisio'r dystiolaeth a glywsom gan randdeiliaid bod angen i ffurflenni cais ar gyfer

[14] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 54
[15] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 56
[16] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 57

penodiadau cyhoeddus fod yn haws eu defnyddio, bod diffyg cymorth ar fynediad i'r anabl a bod angen gwneud mwy i sicrhau amrywiaeth ar fyrddau. Gofynnwyd i swyddogion Llywodraeth Cymru pa gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn.

**28.** Ni roddodd y Prif Swyddog Gweithredu ateb clir ynghylch pa gamau yn union a gymerwyd ac yn hytrach eglurodd sut yr oedd gwaith arall a oedd ar y gweill yn gysylltiedig â mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd.[17] Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (AD):

> *"… our response to the thematic review, whilst we haven't written a detailed response yet, has been informed by some of the wider work that we're doing around the RedQuadrant review, recruitment and other issues."*[18]

**29.** Fe wnaethom amlygu mai cam gweithredu arall, a nodir yn yr adolygiad thematig, yw y byddai'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn gweithio ar gynllun peilot i symleiddio'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn gwella amrywiaeth. Fe wnaethom ofyn i'r swyddogion am ragor o fanylion am y cynllun peilot hwn a phryd y bydd yn cael ei gwblhau. Dywedodd y Cyfarwyddwr AD wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn dechrau bwrw ymlaen â'r cynllun peilot penodol hwnnw ym mis Mawrth/Ebrill 2025.[19]

**30.** Mae'r adolygiad thematig hefyd yn dweud y bydd y tudalennau gwe ar benodiadau cyhoeddus yn cael eu hailwampio. Gofynnwyd pryd y bydd hyn yn digwydd a phryd y bydd y tudalennau gwe newydd ar gael. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu mai'r bwriad yw i'r tudalennau gwe gael eu diweddaru erbyn mis Chwefror 2025[20].

## Amlygrwydd yr uned a'i gwaith

**31.** Rhoddodd sawl tyst dystiolaeth i'r Pwyllgor mai prin oedd eu hymgysylltiad â gwaith yr Uned Cyrff Cyhoeddus neu nad oeddent yn ymwybodol ohoni.

**32.** Dywedodd Dr Rosetta Plummer, yn ei phrofiad hi, bod yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn araf i ymateb a'i bod yn ddiffygiol o ran ei pharodrwydd strategol a'i

[17] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 161
[18] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 162
[19] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 171
[20] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 173

pharodrwydd mewn perthynas â phroses[21]. Ategwyd y profiad hwn gan y tystion eraill, gyda chyn aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, John Cunliffe, yn dweud nad oedd erioed wedi clywed am yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn ystod ei gyfnod mewn rôl gyhoeddus[22].

**33.** Dywedodd Damien Bridgeman wrth y Pwyllgor nad oedd wedi cael unrhyw gysylltiad o gwbl â'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn ystod y broses ymgeisio a phenodi.[23] Dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod, ar un achlysur, wedi ceisio siarad â rhywun a gymerodd dri diwrnod a hanner i ymateb iddo.

**34.** Eglurodd Chantal Patel i'r Pwyllgor nad oedd wedi clywed am yr Uned Cyrff Cyhoeddus ac nad oedd wedi clywed amdani gan unrhyw un o fewn y sefydliadau partner yr oedd yn gweithio ynddynt.[24] Daw adroddiad ar ganfyddiadau'r tîm Ymgysylltu â Dinasyddion i'r casgliad bod yr holl gyfranogwyr yn teimlo y gallai'r Uned Cyrff Cyhoeddus wneud mwy i gefnogi ymgeiswyr:

> *"Mae'n teimlo fel bod yr uned penodiadau cyhoeddus yn islawr Llywodraeth Cymru a 'does neb am iddi gael ei chanfod. Os ydym ni am gael sefydliad mwy amrywiol ledled Cymru, sy'n gynrychioliadol, mae angen i'r uned penodiadau cyhoeddus honno fod yn fwy cyhoeddus"[25].*

**35.** Roedd y cyfranogwyr sydd wedi dal swydd sy'n benodiad cyhoeddus yn y gorffennol neu sy'n dal swydd o'r fath ar hyn o bryd yn teimlo nad yw'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn cefnogi ymgeiswyr yn effeithiol:

> *"Pan fyddwch chi'n ffonio'r uned penodiadau cyhoeddus, nid ydych chi'n cael eich croesawu'n arbennig pan fyddwch chi'n gofyn cwestiynau iddyn nhw neu'n gofyn am bethau mewn fformat arall.*
>
> *...*
>
> *Pryd bynnag y byddwch chi'n ffonio'r uned penodiadau cyhoeddus efallai y byddwch chi'n ffodus i gael galwad ffôn yn ôl. Byddai'n dda*

[21] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 181
[22] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 150
[23] Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2023, Paragraff 45
[24] Cofnod y Trafodion, 18 Mai 2023,
[25] Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru: Adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Mawrth 2023

> *pe baech yn cael pwynt cyswllt uniongyrchol, rhywun y gallech chi fynd ato, rhywun y gallech feithrin cydberthynas ag ef dros amser".*[26]

**36.** Holwyd Llywodraeth Cymru gennym ynghylch amlygrwydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus, ei rôl o ran cwsmeriaid a pha mor ymatebol ydyw. Fe wnaethom ofyn i swyddogion esbonio sut y mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn ymgysylltu â darpar ymgeiswyr am benodiadau cyhoeddus a pha gymorth y mae'n ei roi iddynt.

**37.** Dywedodd Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru wrthym fod yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn chwarae rhan allweddol a hollbwysig yn y broses penodiadau cyhoeddus gyfan[27]. Fodd bynnag, dywedodd:

> *"… but it's only one role and working very much in partnership with the panels, with the sponsorship teams, and also with the public bodies. In terms of its role in dealing with candidates and potentially those on public appointments, it's done a number of things, especially around training for potential candidates"*[28].

**38.** Ychwanegodd:

> *"… we've had a number of training programmes that the unit has been responsible for, and two specifically looking at potential candidates – one around the near-ready leadership programme, and also the future leaders programme. So, it's engaging with those"*[29].

**39.** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu wrthym hefyd am raglen cysgodi swyddi, gyda chyllid ar gyfer hyd at 15 o unigolion sy'n agos at gael eu penodi i fyrddau ond nad oes ganddynt y profiad ar hyn o bryd neu nad ydynt wedi'u penodi i fwrdd eto. Byddant yn gallu gweithio gyda chyrff cyhoeddus ac eistedd ar fyrddau drwy drefniant cysgodi swydd er mwyn helpu i ddatblygu cyflenwad cryfach o ymgeiswyr ar gyfer y dyfodol.[30]

**40.** Esboniodd yr ymatebwyr i ddigwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliad y Pwyllgor "os ydym ni am gael sefydliad mwy amrywiol ledled Cymru, sy'n gynrychioliadol,

---

[26] Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru: Adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu Mawrth 2023
[27] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 44
[28] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 44
[29] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 44
[30] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 45

mae angen i'r uned penodiadau cyhoeddus honno fod yn fwy cyhoeddus"[31]. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn araf i ymateb ac nad yw'n "groesawgar" pan gysylltir â hi.

**41.** Fe wnaethom gyfleu hyn i swyddogion Llywodraeth Cymru, a ddywedodd eu bod yn siomedig o glywed y safbwyntiau hyn ac nad oedd y profiadau hyn yn rhai y byddai'n dymuno i bobl eu cael[32].

**42.** Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn, eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu ei fod yn edrych ar y maes gwasanaeth cwsmeriaid yn ei gyfanrwydd a'i fod yn awyddus i ddatblygu mwy o feddylfryd gwasanaeth cwsmeriaid, lle y byddai cytundebau lefel gwasanaeth yn eu lle ar gyfer ymateb i ymholiadau. Fodd bynnag, eglurodd nad oedd y llywodraeth yn y sefyllfa honno eto, ond mai dyna'r gwaith yr oedd yn ceisio ei wneud o fewn grŵp y prif swyddogion gweithredu.[33]

## Strategaeth Penodiadau

**43.** Fe wnaethom ymchwilio i a oes gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus strategaeth ar gyfer swyddi gwag arfaethedig. Mynegodd rhai tystion bryder nad oedd yn ymddangos bod gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus gynllun strategol ar gyfer swyddi gwag, nac ymwybyddiaeth ohonynt a sut y byddai'r rhain yn cael eu llenwi.

**44.** Yn ystod tystiolaeth lafar, dywedodd Dr Rosetta Plummer nad oedd yn ymddangos bod gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus gynllun strategol ar gyfer recriwtio i benodiadau cyhoeddus sy'n dirwyn i ben[34]. Dywedodd y gallai hyn arwain at fylchau mewn llywodraethu neu amser annigonol i sefydlu pobl yn briodol mewn swyddi sydd â chyfrifoldebau mawr[35].

**45.** Dywedodd Shereen Williams nad yw ei phrofiad o gorff cyhoeddus a oedd angen gwneud penodiadau wedi bod yn arbennig o gadarnhaol[36]. Eglurodd fod y broses wedi bod yn eithaf araf, sy'n rhwystredig pan fo tymor presennol comisiynydd yn dod i ben[37].

---

[31] Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru: Adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Mawrth 2023, tudalen 24
[32] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 47
[33] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 48
[34] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 196
[35] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 196
[36] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 184
[37] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 184

**46.** Cyfeiriodd sawl tyst at yr angen am gyflenwad o dalent i lenwi swyddi gwag ar fyrddau cyhoeddus[38].

**47.** Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus yn caniatáu i Weinidogion benodi ymgeisydd heb gystadleuaeth ar ôl ymgynghori â Chomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus Cymru a Lloegr. Yn Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2020-21, dywedodd y Comisiynydd fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r ddarpariaeth eithriadol yn y cod yn amlach nag adrannau Whitehall. Dywedodd Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2021-22 fod y defnydd o ddarpariaethau eithriadol wedi lleihau, o gymharu â 2020-21, ond yn parhau i fod yn uwch nag yn 2019-20.

**48.** Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022, dywedodd y Comisiynydd:

> *"I do note that the volume of casework from the Welsh Government where my view is sought for exceptions under the code is out of proportion to the number of public bodies in Wales. I have raised this point with the Permanent Secretary in my meeting with him in June. I think better management of competitions would reduce the number of these exceptional arrangements"*[39].

**49.** Roedd y Comisiynydd o blaid blaengynllunio prosesau recriwtio'n well, er mwyn osgoi'r angen i ailbenodi aelodau ac osgoi bylchau llywodraethu gan ddweud bod angen i'r berthynas rhwng y timau noddi a'r uned cyrff cyhoeddus ganolog weithio'n well[40].

**50.** Mynegwyd pryderon ynghylch yr amser y mae rhai prosesau recriwtio yn ei gymryd, yn enwedig o ran penderfyniadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion ynghylch penodiadau. Dywedodd y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus:

> *"I think that delays in the appointment process are very, very harmful to the whole system of public appointments"*[41].

**51.** Dywedodd y Comisiynydd fod hyn yn atal ymgeiswyr rhag gwneud cais. Roedd y canfyddiadau yn adroddiad y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ar

[38] Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru: Adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Mawrth 2023, tudalen 7
[39] Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2022, paragraff 83
[40] Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2022, paragraff 83
[41] Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2022, paragraff 108

ganfyddiadau ei waith ymgysylltu yn debyg. Dywedodd y cyfranogwyr fod yr oedi hir ac anesboniadwy rhwng cael cyfweliad a phenderfyniad yn rhwystr[42].

**52.** Dywedodd Dr Plummer wrth y Pwyllgor mewn tystiolaeth lafar fod anghysondeb rhwng yr amserlenni mewn hysbysebion a'r amser gwirioneddol y mae'n ei gymryd i benderfyniad gweinidogol gael ei wneud[43].

**53.** Gofynnwyd i swyddogion Llywodraeth Cymru a oes gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus gynllun ar waith i reoli swyddi gwag a recriwtio, er mwyn osgoi bylchau mewn trefniadau llywodraethu. Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu fod:

> *"… a nice large spreadsheet of the appointments coming up for the next 12 months. Each one is then red, amber, green status against that, with the aim that, 12 months before the appointment is due to end, there is then contact made with the partnership team or sponsorship team, and the process being kicked off"*[44].

**54.** Fe wnaethom ymchwilio i'r mater hwn ymhellach, gan ofyn i'r Prif Swyddog Gweithredu pa dystiolaeth a oedd ar gael i ddangos sut y byddai'r dull hwn yn mynd i'r afael â swyddi gwag, sut y byddai'n rhagweld lefelau trosiant diwedd tymor/gweithgaredd recriwtio ar gyfer y flwyddyn i ddod a faint o fylchau/swyddi gwag sydd, fel cyfran o'r holl benodiadau cyhoeddus, yn cael eu goruchwylio gan Lywodraeth Cymru.

**55.** Clywsom fod y daenlen yn cynnwys manylion penodiadau arfaethedig ar gyfer y 12 mis nesaf. Ychwanegodd fod y rhain yn cwmpasu rhwng traean a chwarter y penodiadau[45].

**56.** Gofynnwyd i swyddogion Llywodraeth Cymru am y dystiolaeth a gawsom gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ynghylch y defnydd o eithriadau, gan nodi ei fod wedi trafod y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022 ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Fe wnaethom ofyn pa gamau sydd wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'i bryderon.

**57.** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu wrthym fod camau wedi'u cymryd, gan gynnwys y blaengynllun penodiadau i leihau'r angen am estyniadau i

---

[42] Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru: Adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Mawrth 2023, paragraff 27
[43] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 249
[44] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 50
[45] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 54

benodiadau, a dyna un o'r rhesymau pam y gofynnwyd am eithriadau gan y Comisiynydd. Dywedodd eu bod yn sicrhau bod:

> *"... the appointments process is getting better, around team training, around streamlining processes—when it makes sense to talk to the commissioner, and when, actually, we should do things ourselves—and also making sure there are the right links with the partnership teams and suitable guidance"[46].*

**58.** Ychwanegodd:

> *"As far as I'm aware, there are only a couple of occasions where we've had to contact the commissioner over the last year around exceptions, and that would be either, as I said, an extension over a second term, or for a direct appointment. And so, I think the number of occasions and contact on that more formal basis certainly reduced..."[47].*

## Proses Adolygu Deilwredig

**59.** Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus hefyd yn goruchwylio'r rhaglen o adolygiadau teilwredig o Gyrff Hyd Braich[48].

**60.** Ym mis Ionawr 2022, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor ei fod yn gobeithio gwerthuso dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â nawdd, gan gynnwys yr Uned Cyrff Cyhoeddus, yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf[49].

**61.** Nododd fod rhai aelodau mwy profiadol o'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi cael eu hadleoli yn ystod y pandemig, gan ddweud:

> *"... I would like during this next financial year to just be able to stand back and think about some of the things that we've done well, and things that need to be altered. But actually I'm really interested in*

[46] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 58
[47] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 58
[48] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, 11 Ionawr 2022
[49] Cofnod y Trafodion, 26 Ionawr 2022, paragraff 86

> *seeing how we can more ensure that the unit is commissioned as intended post the pandemic"*[50].

**62.** Ym mis Hydref 2022, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol atom yn nodi bod y gwerthusiad o'r gwaith ar Gyrff Hyd Braich a gwaith yr Uned Cyrff Cyhoeddus wedi dechrau. Dywedodd fod "cam cyntaf yr adolygiad wedi'i gwblhau ac rydym yn disgwyl yr adroddiad terfynol cyn bo hir"[51].

**63.** Ym mis Ionawr 2023, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *"Rwy'n cryfhau'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas â gwaith cyrff cyhoeddus, sef cam a gaiff ei arwain gan y Prif Swyddog Gweithredu, Tim Moss. Bydd hyn yn golygu bod rhaglen yr Adolygiad Teilwredig a'r Canllawiau ar gyfer Cymru yn cael eu goruchwylio'n barhaus, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n llwyr"*[52].

**64.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 29 Tachwedd 2023, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad, Andrew Slade, wrth y Pwyllgor:

> *"The programme (Tailored review programme), as I understand it, is effectively on pause while we work through this risk assessment process for each of the bodies, and I think the plan now, ....is that in each Senedd period there will be a risk assessment undertaken of each of the bodies, and then that will inform the tailored review programme—so, the extent to which you go forward into a more focused set of review arrangements for a particular body".*[53]

**65.** Dywedodd Mr Slade fod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull asesu risg, lle y byddai timau allanol ond yn edrych ar faterion penodol o fewn corff cyhoeddus yn hytrach na'r corff cyhoeddus yn ei gyfanrwydd[54].

**66.** Nododd Mr Slade hefyd fod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o benodiadau cyhoeddus a byrddau a fyddai'n cael ei gyhoeddi'r flwyddyn nesaf[55].

---

[50] Cofnod y Trafodion, 26 Ionawr 2022, paragraff 14
[51] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 31 Hydref 2022
[52] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, 30 Ionawr 2023
[53] Cofnod y Trafodion, 29 Tachwedd 2017, paragraff 37
[54] Cofnod y Trafodion, 29 Tachwedd 2023, paragraff 53
[55] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2023, paragraff 76

Nid oedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn darparu unrhyw wybodaeth am adolygiad o'r fath. Dywedodd Mr Slade:

> *"There has….. been work on the board appointments process, which spans all of the bodies—it isn't just about particular ones—so that's a wider thematic review of how we do our work on public appointments. My understanding is… that that will report at some point early next year, and you'll get a copy of that report, and we'll make it publicly available"*[56].

**67.** Mae tystiolaeth Mr Slade yn awgrymu bod un o'r adolygiadau thematig yn ymwneud â phenodiadau cyhoeddus a phrosesau penodi byrddau yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor wedi cael ar ddeall yn flaenorol o ohebiaeth a anfonwyd ato gan yr Ysgrifennydd Parhaol fod yr adolygiad yn ymwneud yn benodol â thâl aelodau bwrdd.[57]

**68.** Fe wnaethom ofyn i Brif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru egluro beth yw statws y rhaglen Adolygiadau Teilwredig, pryd y bydd y broses asesu risg a grybwyllwyd yn nhystiolaeth Mr Slade wedi'i chwblhau, a beth yw'r camau nesaf yn yr asesiad o berfformiad Cyrff Hyd Braich.

**69.** Dywedwyd wrthym fod rhai o'r agweddau ar y cynllun i werthuso'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi cael eu rhoi ar waith gan nodi:

> *"So, one element of that in the previous plan was around a consultation around thematic reviews, which did go ahead, and that was a consultation with both public bodies and partnership teams around what were the key areas to look at. Out of that, there was a decision taken to look at thematic review around board recruitment as the first review, and then another one around sponsorship roles and skills. So, the thematic review around board recruitment has started, and we're mid process around that"*[58].

**70.** O ran y broses asesu risg, fe'n hysbyswyd bod offeryn hunanasesu newydd yn cael ei ddatblygu, o'r enw'r Adnodd Defnyddiol i Asesu Risg, y mae Llywodraeth Cymru yn credu ei fod yn fodel mwy priodol ar gyfer y dyfodol. Y nod yw adolygu'r

---

[56] Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2023, paragraff 59
[57] Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, Rhagfyr 13, 2022
[58] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 66

model hunanasesu yn gynnar yn 2023, ei dreialu ac yna ei gyflwyno i sefydliadau i ffurfio'r broses asesu risg ar gyfer y dyfodol[59].

## Ein barn ni

**71.** Mae gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus rôl bwysig o ran goruchwylio penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys hyrwyddo ymdrechion i gynyddu amrywiaeth ond hefyd drwy ddarparu'r fframwaith ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer pob Corff Hyd Braich.

**72.** Rydym wedi codi pryderon o'r blaen ynglŷn â rôl yr Uned Cyrff Cyhoeddus. Buom yn craffu ar Raglen Adolygiadau Teilwredig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Adroddiad Terfynol Panel yr Adolygiad Teilwredig ar Amgueddfa Cymru[60]. Yn ddiweddarach buom yn ystyried materion yn ymwneud ag Amgueddfa Cymru fel rhan o waith ar wahân i ystyried canfyddiadau Adroddiad Budd Cyhoeddus Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru'.[61] Roedd y gwaith hwn hefyd yn canolbwyntio ar rai materion cyffredinol yn ymwneud â Phroses Adolygiadau Teilwredig Llywodraeth Cymru gan gynnwys diffyg camau rhagweithiol, amlygrwydd ac eglurder ynghylch rôl yr uned.

**73.** Rydym yn parhau i bryderu am rôl yr Uned Cyrff Cyhoeddus ac am lefel yr oruchwyliaeth neu'r diffyg goruchwyliaeth dros y materion y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r uned wedi cael ei throsglwyddo ddwywaith yn ystod ein hymchwiliad; yn gyntaf i is-adran Prif Swyddog Diogelwch Llywodraeth Cymru ac yna i'r Hwb Adnoddau Arbenigol newydd.

**74.** Yn y cyfamser, mae tîm cyflogau cyrff cyhoeddus wedi symud i hwb cyflogau Llywodraeth Cymru ac mae'r tîm ymgysylltu a llywodraethu cyrff cyhoeddus bellach yn rhan o Academi Wales. Mae'r ddau dîm hyn yn ymwneud â phenodiadau cyhoeddus, ond eto maent yn eistedd mewn gwahanol rannau o strwythur sefydliadol Llywodraeth Cymru. Er y gwneir ymdrechion i greu gwell cysylltiadau o fewn gwahanol adrannau ac unedau Llywodraeth Cymru, rydym yn pryderu bod y broses o oruchwylio penodiadau cyhoeddus yn parhau i fod yn gymhleth ac yn aneglur a bod gormod o elfennau iddi.

**75.** Credwn fod gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus rôl ganolog i sicrhau mwy o ymgysylltu ac amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus a hyd yn hyn mae ei

[59] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 66
[60] Amgueddfa Cymru, Adroddiad terfynol Panel yr Adolygiad Teilwredig, 13 Gorffennaf 2023
[61] Adroddiad Archwilio Cymru, Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru – Amgueddfa Cymru, Tachwedd 2023

phresenoldeb a'i hallbynnau wrth gyflawni'r rôl hon wedi bod yn siomedig. Nid yw'r uned wedi bod yn ddigon amlwg a phwysig gan iddi gael ei symud o amgylch strwythur sefydliadol Llywodraeth Cymru, ac nid yw'n ymddangos y rhoddir iddi'r gwerth sydd ei angen ac y mae'n ei haeddu er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei strwythur sefydliadol i asesu a yw symud yr Uned Cyrff Cyhoeddus i'r Hwb Adnoddau Arbenigol yn gwella amlygrwydd yr Uned ac ymgysylltiad â hi, a sut y mae'n gwneud hynny. Dylid rhannu canlyniad yr adolygiad hwn gyda'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am gynnydd ac allbynnau'r camau gweithredu sydd ar y gweill i adeiladu rhwydweithiau a chysylltiadau cryfach rhwng yr Uned Cyrff Cyhoeddus ag adrannau perthnasol eraill o Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 3.** Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn ymateb i argymhelliad 2, rydym yn argymell y dylai hyn gynnwys diagram/siart er mwyn i'r Pwyllgor weld lle mae'r gwahanol gyfrifoldebau dros benodiadau cyhoeddus (tâl, recriwtio, llywodraethu/ymgysylltu, datblygu/mentora cyflenwad o ymgeiswyr, amrywiaeth a chynhwysiant) yn rhan o beirianwaith y Llywodraeth a sut y mae'r elfennau unigol hyn yn cysylltu â'i gilydd. Dylai'r diagram/siart hwn ddangos uwch swyddog cyfrifol penodedig a'r cyfrifoldeb Gweinidogol cyfatebol ar gyfer pob un o'r elfennau hyn. Dylai'r Llywodraeth hefyd gadarnhau pa uwch swyddog penodedig a pha Weinidog sy'n arwain ar ei pholisi penodiadau cyhoeddus yn gyffredinol.

**76.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod adolygiad thematig ar recriwtio byrddau cyrff cyhoeddus wedi'i gynnal, ond rydym yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg eglurder ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r materion sy'n deillio ohono.

**77.** Yn ystod tystiolaeth lafar, fe wnaethom ofyn i swyddogion amlinellu'n syml a oedd camau gweithredu wedi'u cwblhau ai peidio. O'r diffyg tystiolaeth a ddarparwyd, ni allem ond dod i'r casgliad nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd fawr ddim camau neu ddim camau o gwbl mewn ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad thematig.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi datganiad clir inni ar y pum maes datblygu a nodwyd yn yr adolygiad thematig o recriwtio byrddau cyrff cyhoeddus. Dylai'r datganiad nodi'n glir pa gamau sydd wedi eu

cwblhau neu heb eu cwblhau, gan nodi sut y cwblhawyd y camau gweithredu wedi'u cwblhau ac, os nad ydynt wedi'u cwblhau, pam.

**78.** Dywedodd sawl tyst a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor mai cyfyngedig oedd eu hymgysylltiad â'r Uned Cyrff Cyhoeddus, neu nad oeddent yn ymwybodol o'i gwaith. Roeddent yn galw am wella ei hamlygrwydd. Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai a benodwyd i swyddi cyhoeddus y clywsom ganddynt wedi rhyngweithio o gwbl â'r uned. Mae hyn yn syndod ac yn siom inni.

**79.** Er bod y Prif Swyddog Gweithredu hefyd wedi ei siomi gan hynny ac yn cydnabod bod angen gwneud mwy i wella amlygrwydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus, mae hwn yn waith sy'n dal i fynd rhagddo. Nid ydym yn argyhoeddedig bod digon yn cael ei wneud i roi lle blaenllaw i'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn y broses penodiadau cyhoeddus.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru ail-frandio ac yn ail-lansio'r Uned Cyrff Cyhoeddus, gan nodi ei rôl a'i diben yn glir a sicrhau ei bod yn gwbl amlwg ac yn rhyngweithio â'r cyhoedd. Dylai hyn gynnwys darparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am ei rôl a'i chylch gwaith, a sicrhau bod hynny ar gael i bob ymgeisydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

**80.** Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth a roddodd unrhyw hyder inni bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i wella amlygrwydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu gwaith i gynyddu amlygrwydd yr Uned Cyrff Cyhoeddus, gan nodi camau gweithredu clir i gyflawni hyn ac amserlenni ar gyfer pryd y bydd y camau gweithredu'n cael eu cwblhau. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei chynnydd o ran rhoi hyn ar waith.

**81.** Mae'r newidiadau arfaethedig i'r rhaglen Adolygiadau Teilwredig yn peri pryder mawr inni, o ystyried y symudiad tuag at fodel hunanasesu newydd yn lle'r rhaglen flaenorol. Codwyd y pryderon hyn gennym yn ein hadroddiad diweddar ar graffu ar Gyfrifon Amgueddfa Cymru ar gyfer 2021-22, lle y buom yn edrych yn benodol ar ddiffygion y broses adolygiadau teilwredig a fethodd ag adnabod problemau llywodraethu difrifol yn Amgueddfa Cymru.

**82.** Roeddem eisoes yn bryderus ynghylch pa mor ymarferol oedd cyflawni rhaglen Adolygiadau Teilwredig Llywodraeth Cymru, a oedd yn wreiddiol wedi'i bwriadu i adolygu pob corff cymwys yn ystod tymor y Senedd hon ond a fethodd â gwneud hynny. Gallai symud i ddull asesu cyffyrddiad ysgafn arwain at broblemau tebyg mewn cyrff eraill. Yn ein hadroddiad ar Amgueddfa Cymru, fe

wnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ar ôl i'r model hunanasesu newydd ar gyfer adolygu cyrff hyd braich gael ei gwblhau. Rydym yn ategu'r argymhelliad hwnnw ymhellach ac edrychwn ymlaen at y diweddariad.

# 3. Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus

**83.** Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus (y Strategaeth)[62]. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, dywedwyd bod cyflawni'r strategaeth yn "flaenoriaeth weinidogol".[63]

**84.** Nod y Strategaeth yw:

- Creu prosesau mwy agored a thryloyw ar bob lefel o wneud penderfyniadau, gan gynnwys hysbysebu, recriwtio a chyfweld.
- Herio'r rhwystrau mae grwpiau gwarchodedig yn eu hwynebu fel tâl cyfyngedig, anawsterau o ran mynediad, rhagfarn ddiarwybod, a rhwystrau eraill.
- Creu systemau sy'n defnyddio'r holl dalentau, yn parchu gwahaniaethau, ac yn seiliedig ar brofiadau uniongyrchol grwpiau gwarchodedig.

**85.** Mae'r Strategaeth yn cwmpasu'r blynyddoedd 2020-2023, ond mae hefyd yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol yn 2030 os caiff y Strategaeth ei gweithredu'n llawn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu 5 nod penodol a chyfres o gamau gweithredu i gyflawni'r nodau.

**86.** Mae'r Strategaeth yn cynnwys pennod ar lywodraethu. Dywed y byddai'r broses o gyflawni'r strategaeth yn cael ei goruchwylio gan Grŵp Llywodraethu Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am oruchwylio, gweithredu a datblygu'r Strategaeth yn y dyfodol. Mae'n cynnwys amrywiaeth o gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru gan gynnwys y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Moeseg a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; dau Gadeirydd Cyrff Hyd Braich, un Cadeirydd o gorff y GIG, pedwar uwch arweinydd annibynnol, dau aelod o Rwydwaith Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Fyrddau a Chynghorwyr Cydraddoldeb ac Anabledd Arbenigol y Gweinidog.

[62] Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023)
[63] Llywodraeth Cymru - Tystiolaeth Ysgrifenedig, 11 Ionawr 2022

**87.** Dywed y Strategaeth y bydd aelodau'r Rhwydwaith Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Fyrddau yn perthyn i grwpiau gwarchodedig ac y bydd yn datblygu ei gylch gorchwyl ei hun i ddarparu cymorth gan gymheiriaid, modelau rôl ac i rymuso aelodau bwrdd o grwpiau gwarchodedig.

**88.** Nid oes unrhyw dystion i'r ymchwiliad wedi sôn am y Rhwydwaith yn eu tystiolaeth.

**89.** Mae Atodiad 5 y Strategaeth yn cynnwys cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu'r ganran o Gadeiryddion ac aelodau Bwrdd sy'n perthyn i grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol, a chynyddu cyfran yr ymgeiswyr am swyddi ar Fyrddau neu swyddi Cadeirydd sy'n perthyn i grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol.

**90.** Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1 ar gyfer 2020-21[64] ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw gynlluniau gweithredu pellach wedi'u cyhoeddi. Roedd y cynllun gweithredu yn cynnwys nifer o dargedau penodol ar gyfer cyflawni'r strategaeth yn y flwyddyn gyntaf honno ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddiweddariad, deilliannau na gwerthusiad wedi'u cyhoeddi ers hynny.

**91.** Nid oedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn sôn am a fydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu, sut, na phryd, na beth fydd y broses ar gyfer datblygu strategaeth newydd a phryd y caiff ei chyhoeddi[65].

**92.** Fe wnaethom ofyn i Swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd y strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant yn dal i fod yn flaenoriaeth weinidogol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod y strategaeth yn sicr yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Prif Weinidog (ar y pryd) a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol[66].

**93.** Fe wnaethom nodi bod cynllun gweithredu wedi'i gyhoeddi ar gyfer Blwyddyn 1 a oedd yn cynnwys targedau ar gyfer cyflawni'r strategaeth yn 2021-22. Fe wnaethom ofyn a oedd yr holl dargedau hyn wedi'u cyrraedd a statws presennol y Cynllun Gweithredu.

[64] Cynllun Gweithredu: Blwyddyn 1: 2020-2021 Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru
[65] Llywodraeth Cymru – tystiolaeth ysgrifenedig, 11 Ionawr 2022
[66] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 83

**94.** Dywedwyd wrthym bod 28 o blith 44 o gamau gweithredu wedi'u cyflawni ac yn anffodus roedd y pandemig wedi achosi problemau o ran cyflawni rhai o'r camau gweithredu a oedd yn weddill[67].

**95.** Fe wnaethom ofyn pam na chyhoeddwyd Cynllun Gweithredu y tu hwnt i Flwyddyn 1. Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu mai'r dull a fabwysiadwyd ers Blwyddyn 1 fu edrych ar y 25 o gamau gweithredu ar draws y cynllun cyfan, yn hytrach na chreu cynlluniau manwl penodol ar gyfer pob blwyddyn, ac edrych ar y camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r pum nod. Ychwanegodd:

> *"We were just reviewing the other day the five goals and the 25 actions. I think that there are nine of those that are completed or closed, and I think that there are 16 that are ongoing at the moment. A couple of those actions are things that are going to be planned in the near future. So, there is progress, but we haven't followed the focus that was put for that year 1 plan into subsequent years"[68].*

**96.** Er bod y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor wedi bod yn gefnogol ar y cyfan i nodau'r strategaeth, cwestiynodd sawl tyst i ba raddau y mae'r strategaeth wedi'i rhoi ar waith.

**97.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Chantal Patel:

> *"I think the strategy is right […] but how are we going to hold people to account in order for that to be implemented? Are [Chairs and public appointees] taking that on board or are they seeing ethnic minorities as a quota? […] The strategy is great, but is it being implemented? I could not give you a positive answer on that".[69]*

**98.** Yn yr un sesiwn, dadleuodd Dr Doyin Atewologun y gellid gwneud mwy drwy fetrigau a mecanweithiau i sicrhau bod targedau a nodau o fewn y Strategaeth yn cael eu cyrraedd[70]. Dadleuodd Chantal Patel dros gynnwys dangosydd perfformiad allweddol penodol (DPA), sy'n eiddo i Gadeirydd y Bwrdd dan sylw, i sicrhau bod y bwrdd yn amrywiol ac yn bodloni targedau amrywiaeth.[71]

[67] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 85
[68] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 89
[69] Cofnod y Trafodion, 18 May 2023, paragraff 95
[70] Cofnod y Trafodion, 18 May 2023, paragraff 97
[71] Cofnod y Trafodion, 18 Mai 2023, paragarff 101

**99.** Dywedodd Damian Bridgeman wrthym ei fod yn teimlo bod y cynnydd hyd yma o ran cyflawni'r strategaeth yn wael iawn.[72] Nid oedd yn credu bod y gwaith o gyflawni'r strategaeth yn cael ei arwain gan grŵp digon amrywiol i allu ei roi ar waith yn briodol ac nad oedd digon o atebolrwydd am beidio â chymryd camau yn ddigon cyflym. Dywedodd fod y strategaeth yn teimlo fel symboleiddiaeth.[73]

**100.** Dywedodd Shereen Williams na fu unrhyw ddiweddariad ar ganlyniad y strategaeth a'r hyn a gyflawnwyd.[74]

**101.** Nododd Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y cyn Gomisiynydd y bydd y pandemig wedi effeithio ar allu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i wneud cynnydd o ran eu nodau amrywiaeth a chynhwysiant.

**102.** Fe wnaethom godi'r pryderon a fynegwyd gan dystion ynghylch y ffaith nad ydynt wedi gweld unrhyw werthusiad na gwybodaeth am y cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth. Fe wnaethom ofyn i Swyddogion Llywodraeth Cymru egluro sut y mae cynnydd wedi cael ei fonitro a'i fesur ac i egluro pam nad yw hyn wedi'i gyfleu i fyrddau cyrff cyhoeddus neu'n ehangach.

**103.** Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu na fu unrhyw werthusiad ffurfiol o'r cynllun gan ychwanegu:

> "It has been something that we are looking at internally and looking at the actions around it. The team is monitoring it. It's about us looking, really, to deliver those actions. It was originally a three-year plan from 2020 to 2023. Obviously, as I said, the pandemic had disrupted some of the actions. It's something, as we get to the end of 2023, where we are looking at what we actually need to do in terms of what the next steps are, in terms of the plan and the strategy that we had. So, maybe at that point, we'd be looking at giving a summary of where we are at and doing a more formal evaluation in the future"[75].

**104.** Fe wnaethom gyfeirio at dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o'r materion a nodwyd yn Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru - Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023)[76] yn parhau i beri cryn bryder.

---

[72] Cofnod y trafodion 7 Mehefin 2023, paragraff 99
[73] Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2023, paragraff 101
[74] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 289
[75] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 91
[76] Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru - Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023)

Fe wnaethom ofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru a oeddent yn siomedig nad fu unrhyw welliant o ran y materion hyn yn ystod y tair blynedd ers sefydlu'r Strategaeth.

**105.** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu ei fod yn siomedig ond roedd yn credu bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn nifer o feysydd. Dywedodd, a ran y deilliannau a'r penodiadau, fod rhai o'r ystadegau yn sicr wedi gwella ers i'r cynllun gael ei roi ar waith gyntaf[77].

**106.** Dywedwyd wrthym hefyd:

> *"We've also improved the processes and the training programmes that we've done; we've had 208 people go through those training programmes. And so, I think there have been a number of things that we have done. Whether people haven't realised that or we haven't communicated that as effectively as we could—that may be some of the reason why people don't think there has been progress. I think there definitely has been progress, but there is a lot more to be done, and that's something we're really keen to drive forward"*[78].

**107.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 17 Hydref 2024, fe wnaethom gyfeirio at y dystiolaeth a glywsom ar 14 Rhagfyr 2023, pan ddywedodd y Prif Swyddog Gweithredu fod 9 o blith 25 o'r camau gweithredu yn y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus wedi'u cwblhau neu eu cau a bod 16 yn dal y gweill. Fe wnaethom ofyn am ddiweddariad ar faint ohonynt sydd bellach wedi'u cwblhau a pha gamau gweithredu sy'n dal heb eu cyflawni.

**108.** Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu fod dadansoddiad mewnol yn awgrymu bod tuag 19 o blith y 25 cam gweithredu wedi'u cwblhau, neu fod gwaith sylweddol wedi'i wneud arnynt a bod chwech yn dal ar y gweill.

**109.** Mewn perthynas â rhai o'r camau gweithredu nad ydynt wedi'u cwblhau, dywedwyd wrthym fod rhai yn ymwneud â thargedau penodol ar gyfer byrddau. Er i'r Prif Swyddog Gweithredu ddweud mai'r targed amlwg yw y dylai byrddau adlewyrchu'r bobl yn y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu ganddynt, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r broses o osod targedau penodol ar gyfer hynny.[68]

[77] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 93
[78] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 94

**110.** Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu:

> *"There's further work that needs to be done on outreach. There were actions around outreach, but I don't think that is ever completed. There's more we can always do in terms of outreach. There are some actions that have happened, but there is a lot more we need to do to make sure we're reaching out to the right communities"*[79].

**111.** Ychwanegodd fod peth o'r gwaith wedi'i wneud i ddadansoddi byrddau ond nid yw wedi'i gwblhau ac nid yw'r camau i ddiwygio'r wefan i fod yn siop un stop ddwyieithog a chynnal gwerthusiad wedi'u cwblhau ychwaith. Daeth y Prif Swyddog Gweithredu i'r casgliad:

> *"I would view that there are probably two thirds to three quarters of the things have been completed. Others, there is work in progress around them. So, there is progress. But, as I said, we can't sit here and say everything's been done and everything is fine and wonderful. No, it's a journey we're on, and we're making some progress, but there is more that we need to do"*[80].

**112.** Fe wnaethom nodi eto fod y Strategaeth yn cwmpasu'r cyfnod 2020-23 a gofyn i'r Swyddogion a allent amlinellu pryd y bydd y Strategaeth yn cael ei gwerthuso a sut a phryd y bydd canlyniadau unrhyw werthusiad yn cael eu cyhoeddi.

**113.** Dywedwyd wrthym mai'r bwriad yw gwerthuso'r Strategaeth yng ngwanwyn 2025 pan fydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i ddiweddaru 'Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol' y mae cyfatebiaeth glos rhyngddo a'r strategaeth[81].

**114.** Gan edrych i'r dyfodol, fe wnaethom gyfeirio at y dystiolaeth a glywsom ar 14 Rhagfyr 2023 lle y dywedodd swyddogion wrthym ei bod yn amlwg iawn bod y strategaeth yn flaenoriaeth weinidogol, yn enwedig o ran gwella amrywiaeth y penodiadau i fyrddau. Fe wnaethom ofyn a oedd hyn yn parhau i fod yn wir a chadarnhaodd swyddogion ei fod[82].

[79] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 69
[80] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 69
[81] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 81
[82] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraffau 87-88

**115.** Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu fod rhai o'r mesurau allweddol yn deillio o rai o'r data a'r gwelliannau sydd wedi'u rhoi ar waith yn sgil y system recriwtio newydd i gasglu'r data hynny[83]. Ychwanegodd:

> *"There is more we need to do; there are some encouraging signs, but lots more we need to do to make sure we really do meet the principles, the conclusions and the outcomes from 'Reflecting Wales in Running Wales' and also the 'Anti-racist Wales Action Plan'"[84].*

**116.** O ystyried mai dim ond tan fis Rhagfyr 2023 y bwriadwyd i'r Strategaeth fod ar waith yn wreiddiol, gofynnwyd beth oedd yn digwydd nesaf a beth oedd statws presennol y Strategaeth.

**117.** Er na chawsom ateb uniongyrchol ynghylch statws presennol y strategaeth, dywedodd y Cyfarwyddwr AD wrthym:

> *"… we need to, obviously, review the strategy; we've committed to review the strategy and we will do so by spring next year, working in conjunction with the race, disability and disparity evidence units of Welsh Government. There are key opportunities here to make sure that we align some of the data that we've gathered with some of the wider work that we're looking at across Welsh Government around how we promote an anti-racist organisation, which is why we keep coming back to the 'Anti-racist Wales Action Plan', because there is a lot of overlap here. So, the first element is looking at the data".*

**118.** Ychwanegodd mai un o'r camau nesaf fyddai edrych ar y posibilrwydd o ymrwymo i dargedau yn y dyfodol, ac mai penderfyniad gweinidogol fyddai hynny. Bydd angen iddynt hefyd ystyried casgliadau adolygiad thematig y llynedd o recriwtio byrddau cyrff cyhoeddus, a amlinellodd bum maes allweddol o ran sut y gall Llywodraeth Cymru ddatblygu cronfa dalent amrywiol, sicrhau bod arferion recriwtio yn fwy cynhwysol, hyfforddi a chefnogi ei staff, sicrhau bod mwy o gysondeb o ran ei harferion, a thalu ac ad-dalu unigolion[85].

**119.** Gan ystyried y dystiolaeth a glywyd am ymrwymo i dargedau, fe wnaethom atgoffa'r Swyddogion fod pwynt gweithredu 5 o dan Nod 1 y strategaeth yn nodi:

---

[83] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 89
[84] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 89
[85] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 98

> *"Wrth i'r data wella, Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar dargedau cyffredinol ac, os dymunir, eu gosod ar draws yr holl Fyrddau yng Nghymru ar gyfer pobl anabl, BAME, LHDT+, pobl ifanc, a grwpiau economaidd-gymdeithasol, gan gydnabod bod gan Fyrddau unigol wahanol ofynion penodol".*

**120.** Fe wnaethom nodi bod y Prif Swyddog Gweithredu wedi dweud wrthym mai penderfyniad gweinidogol fyddai gosod targed, ond roeddem yn pryderu nad oedd yr ymgynghoriad ynghylch gosod targedau wedi cael ei gynnal.

**121.** Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu nad oedd yr ymgynghoriad hwn wedi cael ei gynnal oherwydd bod Swyddogion yn aros i'r gwaith ar y wybodaeth llinell sylfaen gael ei gwblhau, a phan fydd ganddynt y wybodaeth ar y llinell sylfaen, yna gellir gwneud rhagor o waith ar dargedau yn y dyfodol[86].

**122.** Roedd gennym ddiddordeb yn yr adran ar lywodraethu yn y Strategaeth, sy'n datgan:

> *"Mae angen dull llywodraethu i sicrhau perchnogaeth o'r strategaeth, i sicrhau craffu a chymorth, ac i ddal yr arweinyddiaeth i gyfrif. Mae angen i hyn gynnwys ystod lawn o uwch arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol yn Llywodraethu Cymru a thu hwnt".*

**123.** O ystyried ein pryderon ynghylch y ffaith nad yw rhai o amcanion llinell sylfaen y strategaeth wedi cael eu cyflawni, gofynnwyd i'r Swyddogion a oeddent yn meddwl bod y cymal hwnnw, o ran craffu a dwyn yr arweinyddiaeth i gyfrif am amcanion y strategaeth, wedi'i gyflawni.

**124.** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu wrthym fod pethau y gallai'r llywodraeth eu gwneud yn well o safbwynt llywodraethu neu gyflawni'r strategaeth[87].

**125.** Fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod gwybodaeth fanwl yn y Strategaeth am grŵp llywodraethu amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Roedd yno wybodaeth am aelodaeth arfaethedig y grŵp hwn a'r cylch gorchwyl. Holwyd swyddogion ynghylch hyn a chadarnhawyd nad oedd y grŵp hwn erioed wedi cael ei sefydlu.

---

[86] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 199
[87] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 116

**126.** Pan ofynnwyd beth oedd y rheswm am hynny, eglurodd y Cyfarwyddwr AD nad oedd ganddo'r wybodaeth na'r manylion hynny. Fodd bynnag, dywedodd:

> *"My understanding is that it was a product of circumstance, closely linked to the organisation co-ordinating efforts to other matters, including COVID, for example. Now, that doesn't excuse that the group wasn't established. However, I will make sure that we find out the reason why that wasn't the case, and as we do a lessons-learnt and as we review the strategy and the efficacy of the strategy and what we've delivered, this will clearly be a key point that we will want to focus on"*[88].

**127.** Fe wnaethom ofyn hefyd a gafodd y Senedd wybod am y penderfyniad i beidio â sefydlu'r grŵp llywodraethu. Dywedodd y Prif swyddog Gweithredu wrthym:

> *"... this is something that we will look into, as to whether there was a formal decision around it, or was it a circumstance of events that meant that that wasn't set up".*[89]

## Ein barn ni

**128.** Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith sylweddol sydd i'w wneud yn y maes hwn a bod rhywfaint o'r oedi wedi'i achosi gan y pandemig. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig pennu amserlen o leiaf ar gyfer llunio strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd. Mae eisoes dros flwyddyn ers i'r strategaeth flaenorol ddod i ben ac nid yw'n glir pryd y bydd strategaeth newydd ar waith.

**129.** Rydym yn bryderus iawn bod y Cyfarwyddwr AD wedi dweud mewn tystiolaeth inni nad oedd yn gallu ymrwymo i amserlen ar gyfer strategaeth newydd. Rydym yn croesawu'r ffaith ei fod wedi cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn cynnal adolygiad o'r strategaeth erbyn gwanwyn 2025[90] ond heb amserlen na chynllun clir, mae gennym amheuon ynghylch a fydd hyn yn cael ei gyflawni.

**130.** Rydym yn pryderu nad oes unrhyw werthusiad o'r strategaeth wedi'i gynnal ac mae 6 o'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth ar gyfer

---

[88] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 124
[89] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 128
[90] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 102

penodiadau cyhoeddus yn parhau i fod heb eu cwblhau. Y pryder mwyaf oll yw'r ffaith nad oes unrhyw dargedau penodol wedi'u gosod i fesur llwyddiant y targed y dylai byrddau adlewyrchu'r bobl yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi dechrau ymgynghori ar osod targedau newydd eto.

**131.** Mae'n warthus bod strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru wedi dod i ben ers dros flwyddyn ac na fu unrhyw werthusiad, ymgynghoriad, camau gweithredu, na hyd yn oed gynllun i greu strategaeth newydd.

**Argymhelliad 7.** Gan fod y strategaeth flaenorol wedi dod i ben ac nad oes unrhyw strategaeth olynol wedi cael ei rhoi ar waith, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gweithredu a Strategaeth Penodiadau Cyhoeddus penodol ac annibynnol sy'n ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant yn ei ystyr ehangaf (gan gynnwys iaith a lleoliad daearyddol), a hynny ar fyrder. Ni fyddai'n dderbyniol, yn enwedig o ystyried bod cynifer o agweddau sylfaenol ar strategaeth 2020-23 eto i'w cyflawni, i ymgorffori'r rhain yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol fel yr awgrymwyd. Fodd bynnag, rydym yn nodi, o ystyried mai dim ond cyfnod byr o Dymor y Senedd sy'n weddill, y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried adfer y strategaeth bresennol tan fis Mai 2026. Credwn nad cynnwys y Strategaeth yw'r broblem, ond y ffaith nad yw ei hymrwymiadau wedi cael eu cyflawni.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, fel mater o flaenoriaeth, yn anfon amserlen at y Pwyllgor hwn yn nodi ei bwriadau a'i therfynau amser pendant ar gyfer adolygu ei strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant a datblygu strategaeth newydd ac yn ei rhoi ar waith.

**132.** Rydym yn pryderu y gallai'r methiant i sefydlu'r grŵp llywodraethu fod wedi cyfrannu at y ffaith na chyflawnwyd amcanion y strategaeth. Mae'r ffaith bod strategaeth ar waith am gyfnod o dair blynedd heb i unrhyw waith llywodraethu na monitro trylwyr gael ei gynnal ar ei gweithrediad yn destun pryder sylweddol.

**133.** Rydym yn siomedig nad yw'n glir o hyd a gafodd y Senedd ei hysbysu am unrhyw benderfyniad i beidio â sefydlu'r grŵp llywodraethu.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio i'r Pwyllgor pam mai dim ond un cynllun gweithredu blynyddol ac un adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd o dan Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru - Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023) ac, yn ogystal â nodi pa weinidog/swyddog a benderfynodd

beidio â sefydlu'r grŵp llywodraethu amrywiaeth a chynhwysiant, cadarnhau pa weinidog neu swyddog a wnaeth y penderfyniad ym mhob bob blwyddyn o'r Strategaeth uchod i beidio â chyhoeddi'r cynllun gweithredu blynyddol ac adroddiad blynyddol, a pham.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd nad yw trefniadau llywodraethu a gweinyddu gwael ei strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi cael eu hailadrodd mewn meysydd polisi eraill nac yn cael eu hailadrodd felly. Er mwyn darparu'r sicrwydd hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr o'r holl strategaethau a chynlluniau gweithredu sydd ar waith ynghyd â'r gofynion adrodd ac a ydynt yn cael eu bodloni ai peidio.

# 4. Data ar amrywiaeth

**134.** Mae Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant[91] Llywodraeth Cymru yn amlygu pwysigrwydd byrddau amrywiol, sy'n cynnwys penodi aelodau Bwrdd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae cynllun gweithredu blwyddyn 1 y strategaeth 2020-2021 yn cynnwys sawl cam gweithredu arfaethedig sydd â'r nod o gasglu data ar wahanol grwpiau gwarchodedig sy'n aelodau o Fyrddau, gan gynnwys eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Nid yw'n glir pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar gyflawni'r camau hyn[92].

**135.** Mae dangosyddion perfformiad allweddol y Strategaeth yn gofyn am gasglu data ar amrywiaeth.

**136.** Dywedodd y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus wrthym fod data'n dal i gael ei fewnbynnu â llaw a bod risg o wallau dynol yn uchel o'r herwydd[93]. Dywedodd y Comisiynydd fod Whitehall yn bwriadu cyflwyno system ymgeisio newydd lle y bydd ymgeiswyr yn mewnbynnu data eu hunain. Oni fydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau tebyg, meddai, mae risg y bydd system dwy haen yn datblygu yn yr adroddiad data ac y gallai data Llywodraeth Cymru ddod yn llai cadarn.

**137.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywed Llywodraeth Cymru fod yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn gweithio gyda gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn Llywodraeth Cymru i gasglu data ar amrywiaeth ar gyfer byrddau Cyrff Cyhoeddus a Reoleiddir. Dywed y datblygwyd holiaduron ym mis Mai 2023 ac y byddai asesiad cychwynnol o'r peilot yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2023. Nid yw Ymchwil y Senedd wedi gallu dod o hyd i werthusiad o unrhyw gynlluniau peilot. Nid yw'n glir sut yr oedd data'n cael ei fesur cyn y cynllun peilot hwn ac felly i ba raddau y bydd modd cymharu'r data ag unrhyw ddata a gasglwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Felly, nid yw'n glir sut y caiff effeithiolrwydd strategaeth Llywodraeth Cymru ei fesur.

**138.** Fe wnaethom nodi bod y strategaeth yn codi'r angen i gasglu data'n ymwneud â grwpiau economaidd-gymdeithasol. Er enghraifft, mae amcan 1 y strategaeth, sy'n ymwneud â data, yn nodi bod angen:

---

[91] Cynllun Gweithredu: Blwyddyn 1: 2020-2021 Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru
[92] Cynllun Gweithredu: Blwyddyn 1: 2020-2021 Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru
[93] Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2022, paragraff 141

> *“Adolygu, cryfhau ac ymestyn y systemau presennol ar gyfer casglu gwybodaeth…er enghraifft drwy nodi dangosyddion dirprwyol grwpiau economaidd-gymdeithasol”*[94].

**139.** Er bod tair blynedd wedi mynd heibio ers cyflwyno’r strategaeth wreiddiol, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd y data’n ymwneud â’r dangosyddion hyn wedi cael eu casglu ac y bu oedi gyda’r gwaith hwn. Yn ôl y swyddogion:

> *“… it wasn’t until last year that we were sending out the surveys to boards around their diversity work, and that work is now ongoing, at the analysis stage, and we expect that to report in 2024. Around that, I haven’t got the information on all the characteristics that the data group is looking at”*[95].

**140.** Roeddem yn bryderus ynghylch yr oedi hwn yn enwedig o ystyried bod y strategaeth hefyd yn nodi:

> *“Mae data lleoliad yn angenrheidiol hefyd mewn ymateb i’r canfyddiad bod llawer o Fyrddau “wedi’u canoli yng Nghaerdydd”*[96].

**141.** Rydym yn ymwybodol bod pobl sy’n byw y tu allan i Gaerdydd a de-ddwyrain Cymru yn wynebu heriau wrth wneud cais am benodiadau cyhoeddus oherwydd eu lleoliad, gofynion ieithyddol ac, o bosibl, natur wledig yr ardal ble maent yn byw sy’n golygu bod llai o gyfleoedd. Roedd y strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gasglu manylion am leoliad aelodau’r bwrdd am y rheswm hwn dair blynedd yn ôl ond nid yw hynny wedi cael ei wneud er ei fod wedi’i nodi fel blaenoriaeth yn y strategaeth.

**142.** Ailadroddodd y Prif Swyddog Gweithredu y bu oedi o ran yr ymarfer casglu data ond cytunodd fod gwneud yn siŵr bod gennym fyrddau amrywiol sy’n adlewyrchu’r strategaeth yn hanfodol a bod lleoliad yn rhan bwysig o hynny[97].

---

[94] Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023), tudalen 24
[95] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 111
[96] Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023), tudalen 24
[97] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 115

**143.** Roedd gennym ddiddordeb hefyd yn lefel y gynrychiolaeth ar fyrddau cyhoeddus gan bobl o gefndir ethnig leiafrifol, pobl ag anabledd neu bobl sy'n LHDTC+, gan fod y grwpiau hyn wedi'u tangynrychioli yn hanesyddol. Roeddem hefyd am ddeall faint o'r rhai sy'n dal penodiadau cyhoeddus sy'n siarad Cymraeg a chanran y bobl ar fyrddau yng Nghymru sy'n byw y tu allan i Gymru.

**144.** Nid oedd gan y Prif Swyddog Gweithredu y wybodaeth hon yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ym mis Rhagfyr 2023 a chytunodd i ddarparu manylion mewn gohebiaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, roedd yr ohebiaeth a ddilynodd yn cadarnhau nad yw'r wybodaeth ganlynol wedi'i choladu:

- Ffigyrau o ran nifer y siaradwyr Cymraeg ar fyrddau cyhoeddus;
- Canran y bobl sy'n byw y tu allan i Gymru yn eistedd ar fyrddau cyhoeddus yng Nghymru;
- Manylion a yw Llywodraeth Cymru yn casglu data ar ble mae Penodeion Cyhoeddus yn byw h.y. casglu'r rhan gyntaf o godau post y penodeion er mwyn mapio unrhyw batrymau o ran lle mae Penodeion Cyhoeddus yn byw a ph'un a oes gan rai ardaloedd gyfran uwch o Benodeion Cyhoeddus nag eraill.

**145.** Mae'r llythyr yn nodi:

> *"… nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel rhan o'r data a gasglwn wrth wneud penodiadau cyhoeddus. Fel yr eglurais yn PAPAC, mae Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru wedi cynnal astudiaeth beilot i gasglu data gwaelodlin gan gyrff cyhoeddus ar gyfansoddiad amrywiaeth Byrddau. Ni chasglodd y cam peilot wybodaeth Bwrdd am sgiliau iaith Gymraeg neu leoliad/man preswyl ond gellir ystyried hyn ar gyfer casgliadau data yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd canfyddiadau'r astudiaeth beilot yn cael eu cyhoeddi yn ystod hanner cyntaf eleni"*[98].

**146.** Nid yw'r llythyr yn crybwyll data'n ymwneud â lefel y gynrychiolaeth ar fyrddau cyhoeddus o bobl o gefndiroedd ethnig, pobl ag anabledd neu bobl sy'n LHDTC+.

[98] Llythyr oddi wrth Brif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 29 Ionawr 2024

**147.** Roeddem yn siomedig iawn gyda'r ymateb hwn ac fe'n gorfodwyd i ysgrifennu'n ôl yn gofyn am ragor o wybodaeth. Fel Pwyllgor, roeddem yn sicr bod data ynghylch y Gymraeg a chyfeiriadau ymgeiswyr a phenodeion yn cael eu cadw gan Lywodraeth Cymru a gellid bod wedi eu hasesu er mwyn darparu rhagor o wybodaeth i gynorthwyo ein hymchwiliad.

**148.** Fe wnaethom ddyfynnu i Lywodraeth Cymru y dystiolaeth a roddodd i'r Pwyllgor, lle y cyfeiriodd y Prif Swyddog Gweithredu at strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant Llywodraeth Cymru, Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth honno fe wnaethom ddyfynnu ymrwymiad y strategaeth i:

> *"Sefydlu system gadarn ar gyfer casglu data ar wahanol grwpiau gwarchodedig ar Fyrddau; [gan g]ynnwys grwpiau economaidd-gymdeithasol, gallu ieithyddol, a lleoliad daearyddol".*

**149.** Nodwyd yn ein llythyr y gofynnir i ymgeiswyr lenwi Ffurflen Monitro Penodiadau, sy'n cynnwys gallu unigolyn i siarad Cymraeg. Yn yr un modd, mae prosesau ymgeisio Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfeiriadau pob ymgeisydd ac, yn sgil hynny, y sawl a benodir.

**150.** Roedd hyn i'w weld yn groes i'r camau gweithredu a nodwyd yn y strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant. Fe wnaethom ofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru ailystyried ein llythyr ac ymateb i'n pwyntiau.

**151.** Cawsom lythyr arall gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mawrth 2024 a oedd yn nodi mai'r cyfnod peilot y cyfeiriwyd ato'n flaenorol yw gwaith Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys cysylltu â chyrff cyhoeddus a gofyn am wybodaeth ynghylch amrywiaeth o ran cyfansoddiad eu byrddau. Nid oedd y gwaith hwn yn gofyn am wybodaeth am sgiliau Cymraeg na lleoliad ac ni fydd hynny'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad hwnnw.

**152.** Fodd bynnag, roedd y llythyr hefyd yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn casglu cyfeiriadau ymgeiswyr a gwybodaeth am eu sgiliau Cymraeg fel rhan o'r broses benodi ond, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y wybodaeth hon wedi'i choladu na'i dadansoddi.

**153.** Roedd y llythyr yn egluro bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ei gallu, a'i bwriad oedd dadansoddi'r data'n ymwneud â'r Gymraeg a man preswyl, ar ôl blwyddyn lawn o dan y system newydd.

**154.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ym mis Hydref 2024 fe wnaethom aildrafod Pwynt Gweithredu 1 Amcan 1 y Strategaeth, sef casglu data gan holl aelodau presennol Byrddau Cymru i sefydlu llinell sylfaen er mwyn dylanwadu ar gamau gweithredu yn y dyfodol.

**155.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru bellach wedi casglu'r data hynny, ond nid yw wedi'u hasesu'n llawn ac nid yw'n barod i'w cyhoeddi tan ddechrau 2025. Er eglurder, gofynnwyd a oedd y data a gasglwyd ar gyfer y llinell sylfaen yn cynnwys nid yn unig ddata ar hil, ond data ar yr holl elfennau eraill y cyfeiriodd y strategaeth wreiddiol atynt hefyd, gan gynnwys iaith, lleoliad daearyddol ac yn y blaen[99].

**156.** Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu y cynhaliwyd dau arolwg, un yn canolbwyntio ar amrywiaeth aelodau bwrdd ac un arall ar gasglu data ar y gweithlu. Fodd bynnag, nid oedd ganddo'r manylion ynghylch pa nodweddion yr oedd y data'n eu cwmpasu, ond ymrwymodd i ysgrifennu at y Pwyllgor i gadarnhau'r data a gasglwyd yn unol â Cham Gweithredu 1.1 o strategaeth Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru.

**157.** Darparwyd y wybodaeth hon inni mewn llythyr dyddiedig 8 Tachwedd 2024 ac roedd yn nodi[100]:

> *"Canolbwyntiodd Arolwg 1 ar y dulliau cyfredol y mae sefydliadau'n eu defnyddio i gasglu gwybodaeth am amrywiaeth ar eu haelodau Bwrdd a'u gweithlu ehangach. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ar a yw sefydliadau'n dal neu'n casglu unrhyw wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb gan eu haelodau bwrdd a'u gweithlu, ac os felly, sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei chasglu.*
>
> *Canolbwyntiodd yr arolwg ar 11 nodwedd cydraddoldeb, gan gynnwys statws cymdeithasol-economaidd a sgiliau iaith Gymraeg.*
>
> *Casglodd Arolwg 2 wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb aelodau Bwrdd Cyrff Sector Cyhoeddus rheoleiddiedig a Llywodraeth Cymru ei hun. Gofynnodd yr arolwg i aelodau'r Bwrdd am eu nodweddion personol, gan gynnwys y canlynol:*
>
> *· Ethnigrwydd*

[99] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 105
[100] Llythyr oddi wrth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 8 Tachwedd 2024

> *• Statws Anabledd*
>
> *• Oedran*
>
> *• Rhyw*
>
> *• Crefydd neu gred*
>
> *• Hunaniaeth rywiol*
>
> *• Hunaniaeth Rhywedd".*

**158.** Roedd y llythyr hefyd yn nodi nad oedd hyfedredd yn y Gymraeg wedi'i gynnwys yn y broses casglu data wreiddiol a bod hyn oherwydd bod y ffocws pennaf ar flaenoriaethau penodol gyda'r nod o asesu nodweddion personol allweddol. Dywed y llythyr:

> *"Fodd bynnag, rydym yn deall bod sgiliau iaith Gymraeg yn agwedd bwysig ar gynrychiolaeth ar ein byrddau. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r bwlch hwn a byddwn yn ymgorffori hyfedredd y Gymraeg mewn ymdrechion casglu data ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y dyfodol. Yn ogystal, os yw'n ddefnyddiol i'r pwyllgor, rydym yn agored i gynnal arolwg atodol o aelodau'r bwrdd presennol i ddal data sgiliau Cymraeg"*[101].

**159.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru (Hydref 2024) yn darparu rhywfaint o ddata o system Cais ar gyfer ceisiadau a wnaed rhwng 17 Gorffennaf 2023 a 16 Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, mae'n rhybuddio bod y data'n seiliedig ar geisiadau, nid ymgeiswyr unigol h.y. gallai un unigolyn fod wedi cyflwyno mwy nag un cais ar gyfer gwahanol benodiadau a byddai'r data'n cael eu casglu sawl gwaith, er mai'r un person sy'n gwneud cais am swyddi gwahanol. Mewn perthynas â'r data y gofynnodd y Pwyllgor yn benodol amdanynt, nododd y llythyr y canlynol:

- Roedd 21.2% o'r 391 o geisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus wedi'u rheoleiddio yn geisiadau gan unigolion â sgiliau Cymraeg uwch ac, o blith y rheini, penodwyd 27.3%.

[101] Llythyr oddi wrth Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 8 Tachwedd 2024

- Roedd mwyafrif y ceisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus wedi'u rheoleiddio, sef 46.3 o blith 391, yn geisiadau gan unigolion nad oedd ganddynt ddim sgiliau Cymraeg ac, o blith y rheini, penodwyd 40%.
- Roedd 33.7% o'r 190 o geisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus heb eu rheoleiddio yn geisiadau gan unigolion â sgiliau Cymraeg uwch ac, o blith y rheini, penodwyd 54.5%.
- Roedd mwyafrif y ceisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus heb eu rheoleiddio, sef 42.6% o blith 190, yn geisiadau gan unigolion heb ddim sgiliau Cymraeg ac, o blith y rheini, dim ond 31.8% a benodwyd.
- Roedd 42.7% o'r 391 o geisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus wedi'u rheoleiddio yn geisiadau gan unigolion o Dde-ddwyrain Cymru ac, o blith y rheini, penodwyd 56.4%.
- Yr ardal yng Nghymru gyda'r nifer lleiaf o geisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus wedi'u rheoleiddio oedd Canolbarth Cymru gyda dim ond 4.3% o'r 391 o'r ceisiadau a wnaed yn dod o Ganolbarth Cymru. Roedd 16.4% o'r ceisiadau a wnaed yn geisiadau gan unigolion o'r tu allan i Gymru ac o blith y rheini penodwyd 7.3%. Roedd yn well gan 11% beidio â dweud ble roeddent yn byw.
- Roedd 37.9% o'r 190 o geisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus heb eu rheoleiddio yn geisiadau gan unigolion o Dde-ddwyrain Cymru ac, o blith y rheini, penodwyd 27.3%.
- Yr ardal yng Nghymru gyda'r nifer lleiaf o geisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus heb eu rheoleiddio oedd Canolbarth Cymru gyda dim ond 8.9% o unigolion yn dod o Ganolbarth Cymru. O blith y rheini, penodwyd 13.6%. Roedd 14.2% o'r ceisiadau yn geisiadau gan unigolion o'r tu allan i Gymru ac o blith y rheini, penodwyd 11.4%. Roedd yn well gan 3.7% beidio â dweud ble roeddent yn byw.
- Roedd 36.1% o'r 391 o geisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus wedi'u rheoleiddio yn geisiadau gan unigolion a oedd yn ystyried eu bod yn dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is ac, o blith y rheini, penodwyd 41.8%.
- Roedd mwyafrif y ceisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus wedi'u rheoleiddio yn geisiadau gan unigolion nad oeddent yn ystyried eu bod yn dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is ac, o blith y rheini, penodwyd 43.6%.

- Roedd 28% o'r 190 o geisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus heb eu rheoleiddio yn geisiadau gan unigolion a oedd yn ystyried eu bod yn dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is ac, o blith y rheini, penodwyd 20.5%.
- Roedd 54% o'r 190 o geisiadau a wnaed i gyrff cyhoeddus heb eu rheoleiddio yn geisiadau gan unigolion nad oeddent yn ystyried eu bod yn dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is ac, o blith y rheini, penodwyd 59.1%%.

**160.** Nid yw'r dystiolaeth ysgrifenedig yn darparu data ar y rhai a gyflwynodd geisiadau neu a benodwyd cyn mis Gorffennaf 2023, felly nid yw'n rhoi darlun cywir o amrywiaeth Byrddau a phenodeion presennol cyrff cyhoeddus.

**161.** Nid yw canlyniadau'r arolwg peilot gan Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru, a fwriadwyd i gasglu rhywfaint o ddata ar amrywiaeth gan gyrff cyhoeddus, wedi'u cyhoeddi eto.

**162.** Fe wnaethom nodi o dystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru fod gan 27 y cant o'r bobl a benodwyd rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Gorffennaf 2024 sgiliau uwch yn y Gymraeg.

**163.** Fodd bynnag, mewn ymateb ysgrifenedig a ddarparwyd i gwestiwn ysgrifenedig gan Siân Gwenllian AS a gyflwynwyd ar 21 Awst 2024, rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet wybodaeth am nifer y ceisiadau am benodiadau cyhoeddus a wnaed gan siaradwyr Cymraeg ers 2019 fel canran o'r holl benodiadau; a nifer y ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg a fu'n llwyddiannus, fel canran o'r holl benodiadau a wnaed[102].

**164.** Roeddem am gael cadarnhad ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru yn defnyddio gwybodaeth o'r system benodiadau flaenorol. Os felly, mae ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r cwestiwn ysgrifenedig yn nodi, ers 2019, bod 41.8 y cant o geisiadau am benodiadau i gyrff cyhoeddus a reoleiddir wedi'u gwneud gan bobl a oedd â sgiliau Cymraeg, ac mae hynny'n cynnwys sgiliau uwch a sgiliau sylfaenol. O blith y ceisiadau hynny, bu 12.5 y cant yn llwyddiannus ac, fel canran o'r holl benodiadau, dim ond 5 y cant oedd y rhai a oedd â sgiliau Cymraeg.

**165.** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, os cynhwysir y rhai â sgiliau uwch a sgiliau sylfaenol, y ffigur yw 60 y cant. Fe wnaethom nodi'r gwahaniaeth sylweddol rhwng

[102] WQ93759 (w) Wedi'i gyflwyno ar 21/08/2024

y ddwy set honno o ffigurau, sef 5 y cant dros bum mlynedd â sgiliau Cymraeg ar unrhyw lefel a 60 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaethom ofyn a oedd unrhyw ddadansoddiad wedi'i wneud o'r rheswm dros y gwahaniaeth enfawr hwnnw ac a oedd y data'n gywir. Gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch a oedd bwriad penodol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**166.** Roedd y Prif Swyddog Gweithredu yn cydnabod y gwahaniaeth yn y data ac eglurodd mai un o'r problemau gyda'r hen system oedd ei bod yn dibynnu ar bobl yn adrodd yn wirfoddol. Nid oedd yn ofynnol i bobl lenwi'r meysydd hynny, ac roedd hyn yn tanseilio dilysrwydd y data.

**167.** Dywedwyd wrthym fod yr holl feysydd hynny yn orfodol yn y system bresennol, felly mae ansawdd y data a gasglwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn fwy cadarn. Eglurwyd nad oedd unrhyw ddadansoddiad o'r data hanesyddol wedi'i wneud.

**168.** Fe wnaethom nodi mai'r ail gam ar gyfer cyrraedd nod Llywodraeth Cymru, a nodir yn ei strategaeth fel 'Nod 1: Casglu a rhannu data', yw sefydlu system gadarn ar gyfer casglu data ar wahanol grwpiau gwarchodedig ar Fyrddau; gan gynnwys grwpiau economaidd-gymdeithasol, gallu ieithyddol, a lleoliad daearyddol[103].

**169.** I ni, mae hynny'n golygu nid yn unig mynd yn ôl a chael y llinell sylfaen, ond casglu data'n barhaus. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig, fe wnaethom ofyn a yw Llywodraeth Cymru bellach yn casglu data'n rheolaidd ac a yw wedi sefydlu system gadarn ar gyfer eu casglu a'u dadansoddi.

**170.** Roeddem hefyd am gael gwybod a oedd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r uchelgeisiau a amlinellwyd yn nhrydydd cam Nod 1, sef gweithio gyda sefydliadau anabledd i nodi a gweithredu ffyrdd i bobl hunanadrodd ar eu statws anabledd.

**171.** Ailadroddodd y Prif Swyddog Gweithredu fod y system Cais newydd yn system gadarn ar gyfer casglu data. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnal sgyrsiau â chyrff a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau o ran hunanddiffinio anabledd. Dywedwyd wrthym:

> *"We originally procured a contract with Chwarae Teg and Deep Insight to provide advice, support and diversity and inclusion training, which we did promote to our networks, and that included disability*

[103] Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023), tudalen 25

> *organisations. In terms of the current work on capturing data and making sure that colleagues can self-report on their status with greater confidence, we do work with the internal Welsh Government disability and race disparity unit, who have expertise in how we look at statistical matters and how we report and gather data on that. I appreciate that's not quite the same, but there is more work that we need to do in this area, and that's absolutely something that we will return to".*[104]

**172.** Roedd y pedwerydd pwynt gweithredu o dan Nod 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru "[g]omisiynu gwaith gwerthuso a monitro parhaus, gan ddefnyddio data meintiol ac ansoddol, ar wahanol agweddau ar y cynnydd a wnaed", gyda'r canfyddiadau'n cael eu hadrodd yn flynyddol. Fe wnaethom ofyn a oedd y cam hwn wedi'i gwblhau a dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru yn llunio adroddiad blynyddol ar ei gwaith ar amrywiaeth a chynhwysiant, a bod hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r bwrdd[105]. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu y byddai'n rhaid iddo wirio a yw hwnnw'n cael ei gyhoeddi.[106]

**173.** Nodwn o'r data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod 4.3 y cant o'r 391 o geisiadau wedi dod o ganolbarth Cymru, a bod 16.4 y cant o'r ceisiadau wedi'u gwneud gan unigolion o'r tu allan i Gymru, ac, o blith y rheini, penodwyd 7.3 y cant, ac roedd yn well gan 11 y cant beidio â dweud ymhle yr oeddent yn byw.

**174.** Gofynnwyd i swyddogion a oeddent yn teimlo bod y system yn darparu ar gyfer sicrhau amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus a bod pobl sy'n adlewyrchu Cymru yn cael eu penodi. Fe wnaethom hefyd ofyn beth oedd Llywodraeth Cymru yn mynd i'w wneud i fynd i'r afael â'r prinder ymgeiswyr o ganolbarth Cymru.

**175.** Dywedwyd wrthym yn yr adolygiad thematig o recriwtio byrddau cyrff cyhoeddus fod modd gwneud mwy o ran hyfforddiant a chymorth, gan gynnwys cynyddu hyfforddiant i helpu ymgeiswyr i ddeall y broses recriwtio a hysbysebu a rhannu'r hyn sydd ar gael. Roeddent yn cydnabod bod mwy i'w wneud o ran allgymorth, yn enwedig ar draws gwahanol gymunedau yng Nghymru, i wneud yn siŵr bod unigolion yn awyddus ac yn barod i wneud cais[107].

[104] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 186
[105] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 192
[106] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 197
[107] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 144

**176.** Eglurodd y Cyfarwyddwr AD bod y ffaith bod y tîm penodiadau cyhoeddus wedi cael ei symud i'r hwb recriwtio ehangach yn ddiweddar yn helpu i rannu arfer da rhwng prosesau recriwtio Llywodraeth Cymru a'r rhai ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Gallai dulliau o hybu allgymorth gynnwys estyn allan i gymunedau lleol, sesiynau galw heibio, presenoldeb mewn ffeiriau swyddi lleol, rhyngweithio ag ysgolion a phrifysgolion lleol, ac estyn allan i fusnesau allweddol a chysylltiadau eraill[108].

**177.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod dull Comisiwn y Senedd o gynyddu amrywiaeth yn ei benodiadau cyhoeddus wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, esboniodd y Comisiwn yn ei dystiolaeth inni fod y data a oedd ganddo ar anabledd ar y cyfan yn wael, a'i fod bellach yn casglu data sy'n ymwneud â symudedd cymdeithasol ac, er enghraifft, yn defnyddio pecynnau ymgeiswyr niwtral o ran rhywedd, yn diweddaru ei wefannau gan ddefnyddio straeon a arweinir gan gymheiriaid ac astudiaethau achos go iawn, yn defnyddio asiantaethau hysbysebu dwyieithog ac yn hysbysebu ar Women on Boards, gwefan i fenywod sydd â diddordeb yn y broses penodiadau cyhoeddus. Fe wnaethom ofyn a oedd Llywodraeth Cymru yn edrych ar arferion da yn y Comisiwn neu mewn man arall, y gellid eu hefelychu.

**178.** Eglurodd y Cyfarwyddwr AD, er nad oedd wedi edrych ar Gomisiwn y Senedd eto, y byddai'n siarad yn bersonol â phennaeth AD y Comisiwn i ddeall ymhellach y prosesau sydd ar waith yno.

**179.** Fodd bynnag, eglurodd fod nifer o unigolion a chanddynt arbenigedd mewn mannau eraill ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr yn cefnogi'r tîm penodiadau cyhoeddus. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr sy'n cefnogi'r tîm iechyd gyda'r mynegai cydraddoldeb hiliol yn y gweithle.

**180.** Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn edrych ar symleiddio ei phroses penodiadau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod unigolyn sy'n cael ei gymeradwyo gan fwrdd recriwtio, ond nad yw o bosibl yn cael ei benodi oherwydd bod ymgeisydd arall wedi cael sgôr uwch, wedyn yn gallu cael ei ystyried ar gyfer y penodiad nesaf heb orfod mynd drwy broses arall[109].

**181.** Un pwynt olaf ynglŷn â data y gwnaethom ofyn am eglurder yn ei gylch oedd a yw'r data a gesglir yn cynnwys penodiadau i gyrff wedi'u rheoleiddio, penodiadau i gyrff heb eu rheoleiddio a'r trydydd categori o benodiadau, nad

[108] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 146
[109] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 157

ydynt yn dod o dan unrhyw fath o weithdrefn o gwbl. Roeddem am wybod a oedd Llywodraeth Cymru yn casglu data ar draws pob categori.

**182.** Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu fod data a gesglir drwy'r system Cais yn ymwneud â phenodiadau i gyrff wedi'u rheoleiddio ac unrhyw benodiadau i gyrff nad ydynt wedi'u rheoleiddio sy'n mynd drwy'r system ac yn dilyn y cod yn wirfoddol. Nid yw'n cynnwys pob un o'r sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, ond mae'n cynnwys y rhai sy'n dod o fewn y categorïau hynny[110].

## Ein barn ni

**183.** Mae tystiolaeth sy'n dangos y diffyg data a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddemograffeg penodeion byrddau cyhoeddus yn peri cryn bryder. Er bod ei strategaeth yn nodi'r angen i gasglu a rhannu data, mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn union i'r gwrthwyneb.

**184.** Ni chasglwyd data tan 2023, er i'r strategaeth gael ei chyhoeddi yn 2020. Hyd yn oed pan gasglwyd y data hyn, roedd data hanfodol ar goll. Adeg ysgrifennu ein hadroddiad, nid yw'r data wedi'u hasesu'n llawn ac ni fydd unrhyw fanylion am y data yn barod i'w cyhoeddi tan ddechrau 2025.

**185.** Daethom i'r casgliad, ar y gorau, y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflawni pwynt gweithredu 1 amcan 1 ond yn hwyr iawn yn y broses; bum mlynedd yn hwyr i fod yn fanwl gywir. Ar y gwaethaf, efallai nad yw wedi'i gyflawni o gwbl a bydd yn rhaid inni aros i weld beth fydd yn cael ei gyflawni yn 2025. Y naill ffordd neu'r llall, nid yw hyn yn record dda o ran cyflawni yn erbyn pwynt gweithredu mewn un o strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru.

**186.** Cyhoeddwyd Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus (y 'Strategaeth')[111] yn 2020 a dywedwyd wrthym fod cyflawni'r strategaeth yn "flaenoriaeth weinidogol"[112].

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu set ddata gyflawn (nid un wedi'i rhannu ar draws sawl darn o ohebiaeth) a chynhwysfawr ar nodweddion amrywiaeth (gan gynnwys iaith a lleoliad) i'r Pwyllgor hwn ar fyrder, fel yr ymrwymodd i'w wneud yn ei strategaeth ar gyfer 2020-2023, ar gyfer pob penodiad cyhoeddus i gyrff Wedi'u Rheoleiddio a Heb eu

[110] Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2024, paragraff 209
[111] Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023)
[112] Llywodraeth Cymru - Tystiolaeth Ysgrifenedig, 11 Ionawr 2022

Rheoleiddio, er tryloywder ac i lywio gweithgarwch yn y maes hwn yn y dyfodol, a thrwy hynny greu'r llinell sylfaen a addawyd yng Ngham Gweithredu 1, Nod 1 y Strategaeth.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bodloni ein cais i gyhoeddi'r adroddiadau "i'w bwrdd" y cyfeiriwyd atynt gan y prif swyddog gweithredu ym mharagraff 166 o'r adroddiad hwn.

# 5. Gwelliannau i'r broses penodiadau cyhoeddus

## Datblygu cyflenwadau o dalent

**187.** Soniodd llawer o dystion am bwysigrwydd datblygu cyflenwadau o dalent drwy gynnig rhaglenni mentora neu brentisiaeth i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Chantal Patel fod enghreifftiau da o raglenni prentisiaeth bwrdd y gellid eu defnyddio i annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgeisio[113].

**188.** Dywedodd Shereen Williams wrth y Pwyllgor y dylid gofyn i gyrff cyhoeddus gynnal sesiynau rhagflas i ddarpar ymgeiswyr[114]. Roedd Dr Plummer yn cytuno bod creu llwybrau a chyflenwadau o dalent i ymgeiswyr yn bwysig iawn[115].

**189.** Clywodd y Pwyllgor hefyd, er mwyn i gynlluniau mentora a phrentisiaethau weithio, fod angen mynd i'r afael â rhwystrau eraill i'r proses ymgeisio. Dywedodd Dr Atweologun wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod unrhyw gynlluniau mentora yn cynnwys elfen o ddysgu cilyddol fel bod y rhai sy'n mentora hefyd yn dysgu o brofiadau'r sawl y maent yn ei fentora[116].

**190.** Yn ei dystiolaeth, dywedodd Damian Bridgeman fod angen i gynlluniau mentora presennol gael eu hariannu'n well ac y dylent gynnwys hyfforddwyr gweithredol cymwys, yn hytrach na sesiynau sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau'r trydydd sector nad oes ganddynt arbenigedd penodol o bosibl[117].

**191.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, noda Llywodraeth Cymru:

> *"Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn awyddus i weithio gyda'n partneriaid allanol i hwyluso cyfleoedd mentora a chysgodi ar gyfer pobl o grwpiau gwarchodedig i'n helpu i ddatblygu cronfa o unigolion sydd â diddordeb mewn gwneud cais am swydd bwrdd".*

**192.** Mae hefyd yn dweud bod yr Uned Cyrff Cyhoeddus wedi gweithio gyda Thimau Partneriaeth i gynnal digwyddiadau ymgysylltu â Thimau Partneriaeth.

[113] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 111
[114] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 194
[115] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 107
[116] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 116
[117] Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2023, Paragraff 52

Nid yw'n dweud a gafodd y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Blwyddyn 1 eu cyflawni.

**193.** Fe wnaethom nodi bod Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1 a Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o gamau gweithredu mewn perthynas â datblygu cyflenwad o dalent a chynlluniau prentisiaeth a mentora. Fe wnaethom ofyn i Swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd y rhain wedi'u cyflawni a sut y mesurwyd eu llwyddiant o ran cynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr[118].

**194.** Dywedwyd wrthym fod nifer o gamau wedi'u cymryd, gan gynnwys rhaglenni hyfforddi a chronfa dalent o 14 o unigolion a oedd wedi methu â chael eu penodi i benodiad cyhoeddus o drwch blewyn, sy'n cael eu cynorthwyo gyda cheisiadau yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi creu rhaglen gysgodi ar gyfer 15 o unigolion i gael profiad o eistedd ar fyrddau a datblygu cysylltiadau ag aelodau bwrdd a chadeiryddion drwy'r profiad hwn. Clywsom y bydd yr unigolion hyn yn cael eu talu er mwyn dileu unrhyw rwystrau i gael mynediad at y cymorth hwn[119].

**195.** Fe wnaethom holi sut yr oedd cyfleoedd i gael lle ar y rhaglen gysgodi yn cael eu hysbysebu ac, er mwyn cael sicrwydd o ystyried ein pryderon bod rolau yn canolbwyntio ar Gaerdydd yn gyffredinol, sut yr oedd yr ymgeiswyr gorau posibl yn cael eu denu i'r rolau hyn.

**196.** Yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar, nid oedd gan y Swyddogion y wybodaeth hon a chawsom eglurder ganddynt, yn ysgrifenedig, ynghylch y 15 o unigolion a ddewiswyd i eistedd ar Fyrddau er mwyn magu profiad. Noda'r llythyr:

> *"… bod y rhain i gyd yn raddedigion rhaglenni Arwain Parod ac Arweinwyr Cyhoeddus y Dyfodol Llywodraeth Cymru a gafodd eu rhedeg gan Chwarae Teg y llynedd. Rydym yn y broses o [ddechrau proses sefydlu gyda'r] 15 ymgeisydd sydd wedi cadarnhau eu diddordeb a'u paru â'r Byrddau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Rydym yn rhagweld y bydd y mentoreion yn mynychu eu cyfarfodydd Bwrdd cyntaf ym mis Mawrth".*

[118] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 169
[119] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 170

## Y broses recriwtio

### Y broses ymgeisio

**197.** Cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru adroddiad ar wella'r broses recriwtio ym mis Tachwedd 2020. Canfu fod y ffordd y cynhelir cyfweliadau ar gyfer swyddi yn gallu bod yn rhwystr i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

**198.** Canfu Adolygiad yr Arglwydd Holmes yn 2018 i alluogi pobl anabl i ymgymryd â phenodiadau cyhoeddus fod pobl anabl yn fwy tebygol o fod â CVs a hanes addysg ansafonol. Mewn gweithdai a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad, dywedodd y cyfranogwyr:

> *"Lived experience itself is a talent [...] wider experiences disabled [people] have are crucial to boards, particularly around problem solving and the willingness to think laterally".*[120]

### "Y grefft" o ymgeisio am benodiadau cyhoeddus

**199.** Roedd tystiolaeth gan dystion lluosog yn awgrymu bod arddull benodol yn cael ei defnyddio ar gyfer ceisiadau am benodiadau cyhoeddus a all fod yn rhwystr i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

**200.** Dywedodd Dr Atewologun wrthym:

> *"The idea of the art of applying to public appointments reflects that there is a formal and an informal, or an explicit and an implicit way of successfully navigating or traversing some of these major thresholds.*
>
> *The implication for diversity, inclusion and equity is that people who tend to belong to what we describe as the 'in group' have much more access to what the rules of the game are to help them navigate the public appointments process, and other processes, relative to people who belong to 'outsider groups' for whom only what is explicit is made available"*[121].

[120] Adolygiad yr Arglwydd Holmes, 'Opening up public appointments to disabled people'
[121] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 14

**201.** Ategodd Shereen Williams y farn bod gwneud cais am benodiad cyhoeddus yn grefft a bod angen defnyddio geiriad penodol, a allai fod yn atal ymgeiswyr mwy amrywiol rhag gwneud cais[122].

**202.** Dywedodd Dr Rosetta Plummer wrthym:

> *"… it's all the subtleties that you don't know… It's understanding the particular nuance and lingo, being able to match the eight criteria being sought by the committee in your STAR examples on less than one-and-a-half sides, or two sides. The demands in doing that…"[123].*

**203.** O ran argymhelliad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru y gallai ymgeiswyr ddarparu bywgraffiadau byr yn hytrach na CVs traddodiadol, dywedodd Dr Atewologun wrth y Pwyllgor:

> *"I think it could make a difference, because longer bios give people an opportunity to tell their story more authentically and gives permission, in some ways, to provide a more rounded, less standardised format in terms of putting one's best self forward"[124].*

**204.** Ychwanegodd Dr Atewologun y byddai gwerthuso effaith cyflwyno bywgraffiadau byr yn bwysig, gan ddefnyddio data meintiol yn ogystal â data ansoddol ar brofiadau ymgeiswyr o'r broses[125].

**205.** Dywedodd Shereen Williams y dylai'r broses recriwtio i gyrff cyhoeddus anelu at recriwtio a chynnwys meini prawf 'profiad bywyd' fel bod y ffocws ar dalent ac amrywiaeth yn hytrach nag ar sgiliau y gellir eu haddysgu megis arweinyddiaeth a delio â phapurau bwrdd[126].

**206.** Ategwyd hyn hefyd gan Chantal Patel a ddywedodd:

> *"You've got to be looking beyond whether you're seeking specific skills, but you're looking at talent that's going to be able to bring a different perspective on the make-up of boards"[127].*

[122] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 178
[123] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 179
[124] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 16
[125] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 16
[126] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 187
[127] Cofnod y Trafodion, 18 Mai 2023, paragraff 60

**207.** Awgrymodd Damian Bridgeman i'r Pwyllgor, er bod ffurflenni cais yn sôn y gellir gwneud addasiadau rhesymol, fod diffyg ymwybyddiaeth yn yr Uned Cyrff Cyhoeddus ynghylch pa addasiadau y gellir eu cynnig, a bod y cyfrifoldeb yn cael ei roi ar ymgeiswyr i ofyn am bethau penodol. Cyfeiriodd at yr enghraifft o ddarllenwyr sgrin a thechnoleg gynorthwyol, nad ydynt yn aml yn gweithio gyda systemau â chymwysiadau generig, ac o orfod hysbysu'r Uned Cyrff Cyhoeddus ei hun o'r hyn yr oedd ei angen arno yn hytrach na bod yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn cynnig atebion[128].

**208.** Yn yr adroddiad ar ganfyddiadau ei waith ymgysylltu, dywedodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y "teimlai llawer o'r cyfranogwyr fod hygyrchedd a pha mor hawdd yw'r feddalwedd gyfredol ar gyfer gwneud cais yn rhwystr"[129]. Roedd enghreifftiau o rwystrau yn cynnwys y ffaith bod ffeiliau PDF yn anodd eu defnyddio gyda darllenwyr sgrin, yr anallu i ddefnyddio dogfennau Word a hefyd nad yw'r system yn storio manylion ymgeiswyr i'w defnyddio mewn ymarferion recriwtio yn y dyfodol.

**209.** Yn ei adroddiad ar y broses recriwtio, argymhellodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru y dylid cynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gwaith o ddatblygu systemau recriwtio newydd. Ategwyd y farn hon gan gyfranogwyr yn yr adroddiad ar ganfyddiadau gwaith ymgysylltu y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion. Argymhellodd Damian Bridgeman y dylid datblygu meddalwedd recriwtio i gynnwys pobl ar y panel hwnnw sydd â phrofiad bywyd o sut y mae'r feddalwedd yn gweithio gyda thechnoleg gynorthwyol[130].

**210.** Rhannwyd barn debyg gan Dr Atweologun a ddywedodd, lle bo modd, y dylid darparu opsiynau lluosog yn rhagweithiol i bobl[131]. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd sicrhau amrywiaeth ar baneli cyfweld i roi ymdeimlad o ddiogelwch, neu berthyn, i'r ymgeisydd neu leihau'r bygythiad o stereoteipio y mae'r ymgeisydd yn ei brofi.

## Cynwysoldeb y Broses Recriwtio

**211.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn nodi bod trafodaethau ar y gweill ar y canlynol:

---

[128] Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2023, Paragraff 41
[129] Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru: Adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Mawrth 2023, paragraff 17
[130] Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2023, Paragraff 89
[131] Cofnod y Trafodion, 18 Mai 2023, paragraff 38

- Pecynnau ymgeiswyr – osgoi iaith gymhleth a all fod yn gyfarwydd i bobl sydd wedi gweithio mewn rolau uwch yn y sector cyhoeddus yn unig. Cynnwys profiad 'byw' ym manyleb y person a symud tuag at ddull seiliedig ar ymddygiad;
- Datblygu canllawiau ar gyfer darpar ymgeiswyr i wella'r tebygolrwydd o lwyddo;
- Datblygu canllawiau a hyfforddiant ar gyfer Timau Partneriaeth wrth gynnal ymgyrch;
- Gofyn am adborth gan ymgeiswyr ar ôl y cyfweliad

**212.** Roedd Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1 ar gyfer strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru yn cynnwys dyddiadau cyflawni ar gyfer 2020 a 2021. Nid yw'n glir a gafodd camau gweithredu eu cyflawni neu a yw'r trafodaethau sydd ar y gweill, a amlinellir uchod, yn gamau gweithredu newydd yn ychwanegol at y rhai sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Blwyddyn 1.

**213.** O ystyried y cyfoeth o dystiolaeth a gawsom sy'n dangos bod y broses recriwtio ymhell o fod yn gynhwysol, fe wnaethom ofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru pa gamau a gymerwyd ers 2020 i wneud y broses ymgeisio yn fwy hygyrch i ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

**214.** Dywedwyd wrthym fod amrywiaeth o gamau gweithredu wedi'u rhoi ar waith gan gynnwys symleiddio'r pecynnau a'r meini prawf ar gyfer rolau a chreu canllaw i ymgeiswyr i'w helpu i wneud cais[132].

**215.** Eglurwyd bod mwy o wybodaeth wedi ei darparu i dimau partneriaeth ar y broses recriwtio, ynghyd â ffurflenni a thempledi i symleiddio a safoni'r broses ymgeisio. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod angen gwneud rhagor o waith ac mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag arbenigwr allanol drwy grŵp atebolrwydd 'Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol', i wneud hyn[133].

## Adborth ar ôl Gwneud Cais/Cyfweliad

**216.** Dywedodd nifer o dystion wrth y Pwyllgor am bwysigrwydd rhoi adborth i ymgeiswyr i'w hannog i wneud ceisiadau yn y dyfodol ac i'w helpu i ddatblygu.

[132] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 179
[133] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 180

**217.** Esboniodd Dr Atewologun y dylid rhoi mwy o hyfforddiant ac arweiniad i baneli ar bwysigrwydd rhoi adborth da gan nodi:

> *"I wanted to add that a lot of research shows that where there is no standard approach or consistent approach to giving feedback, giving feedback is.. poorer quality, it's less frequent, it is less consistent and it is less actionable. So I just wanted to emphasise that research indicates that more standardised feedback is good for everyone, but in particular is helpful in building a more diverse and equitable space"*[134].

**218.** Nid oedd Dr Plummer yn credu bod digon yn cael ei wneud i barhau i annog pobl i wneud cais eto os byddant yn aflwyddiannus yn eu cais am benodiad penodol ac i sicrhau nad ydynt yn cael eu digalonni[135].

**219.** Rhoddodd Damian Bridgeman enghraifft benodol lle nad oedd wedi cael adborth a phan ofynnodd amdano, dywedwyd wrtho nad oedd unrhyw gofnodion o'i broses gyfweld. Dywedodd fod hynny wedi llesteirio ei ddatblygiad a'i allu i greu cynllun datblygu gyda'i fentor[136].

**220.** Mae Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1 (2020-21) Llywodraeth Cymru ar gyfer y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys nifer o gamau gweithredu ar adborth o dan Nod 4, gan gynnwys datblygu dulliau ar gyfer rhoi adborth rheolaidd seiliedig ar gryfderau i'r holl ymgeiswyr, a sicrhau dysgu parhaus yn deillio o'u hadborth[137]. Mae nod 4 (a) yn ceisio datblygu dull seiliedig ar gryfderau a datblygu o roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus

**221.** Rydym yn bryderus ynghylch y swm o dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor sy'n pwysleisio'r rôl allweddol y gall adborth adeiladol ei chwarae o ran sicrhau nad yw ymgeiswyr aflwyddiannus o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu hatal rhag ymgeisio yn y dyfodol ac o ran cael cymorth i ddatblygu eu sgiliau.

**222.** Gofynnwyd a oedd yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn rhoi cyngor ac arweiniad cyson i baneli recriwtio ar bwysigrwydd rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.

---

[134] Cofnod y Trafodion, 18 Mai 2023, paragraff 73
[135] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 230
[136] Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2023, Paragraff 54
[137] Cynllun Gweithredu: Blwyddyn 1: 2020-2021 Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, tudalen 13

**223.** Eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu fod adborth yn bwysig iawn gan ddweud:

> *"There is a standard process now where all outcome letters invite candidates to seek feedback, and that'll be written feedback from the panel or specific feedback from the chair of the panel"*[138].

## Taliadau Cydnabyddiaeth

**224.** Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn nodi y gall diffyg neu lefel isel o dâl ar gyfer penodiadau cyhoeddus a hyblygrwydd cyfyngedig o ran telerau ac amodau lesteirio ymdrechion i gynyddu amrywiaeth[139]. Gall grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig lluosog, gael eu heffeithio'n anghymesur, a gall hefyd atal cyfranogiad y rhai sydd â dibynyddion a chyfrifoldebau gofalu.

**225.** Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru yn cydnabod hefyd mai "rhwystr cyson i nifer o bobl o grwpiau gwarchodedig yw'r tâl cyfyngedig am waith sy'n gofyn am fwy o amser ac ymrwymiad nag sy'n cael ei "wobrwyo"[140]. Dywedodd ymhellach fod llawer yn teimlo mai "dim ond y rheini ar gyflog a phensiwn da sy'n gallu ymgeisio". Roedd y Strategaeth yn nodi bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o dâl aelodau Bwrdd. Nid yw'n glir a yw'r adolygiad wedi dod i ben.

**226.** Roedd y dystiolaeth a gafwyd gan dystion yn awgrymu nad oedd y tâl a gynigiwyd gan lawer o swyddi yn adlewyrchu'r ymrwymiad amser sydd ei angen er mwyn cwblhau'r rolau'n gywir. Teimlai rhai tystion hefyd fod eu profiad o'r ymrwymiad amser sydd ei angen mewn gwirionedd yn wahanol iawn i'r ymrwymiad cychwynnol a hysbysebwyd yn y swydd-ddisgrifiad.

**227.** Dywedodd cyn-aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, John Gallanders, wrth y Pwyllgor:

[138] Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2023, paragraff 197
[139] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Cynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus drwy recriwtio
[140] Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru (2020-2023)

> *"… the appointment and the advertisement was based on four days a month. The reality is that it's two, three days a week if you're actually taking up the role in the manner in which you should do"*[141].

**228.** Dywedodd John Cunliffe wrth y Pwyllgor na chynigir tâl priodol am y swyddi hyn i adlewyrchu'r ymrwymiad amser sy'n ofynnol o Aelodau Annibynnol[142].

**229.** Mynegodd Chantel Patel farn debyg a dywedodd y gall papurau'r Bwrdd fod yn gannoedd o dudalennau o hyd a bod angen llawer mwy o ymrwymiad na dim ond mynychu cyfarfod. Roedd Dr Atewologun yn cytuno â'r farn bod ymrwymiad amser yn atal unigolion rhag ymgeisio.

**230.** Dywedodd Dr Plummer wrth y Pwyllgor:

> *"I bet the public bodies unit wouldn't have the slightest idea how many hours we spend, or any board member spends".*

**231.** Roedd Shereen Williams yn cytuno nad yw rolau a hysbysebir yn aml yn cynnwys amser darllen nac amser paratoi.

**232.** Teimlai Dr Plummer y bydd diffyg tâl teg yn arwain at bobl iau yn penderfynu peidio ag ymgeisio:

> *"And that remuneration and time issue is a key issue that will constantly mean you're going to get the old and grey, not the young or those with caring responsibilities".*

**233.** Soniwyd yn benodol am dâl fel rhwystr i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn adroddiad ar ganfyddiadau gwaith ymgysylltu y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion. Teimlai'r cyfranogwyr y gallai tâl gwael fod yn rhwystr i'r rhai mewn cyflogaeth amser llawn y byddai angen iddynt leihau eu horiau gwaith er mwyn ymgymryd â phenodiad cyhoeddus. Codwyd cymhlethdodau hefyd i bobl sy'n hawlio budd-daliadau ac yn eistedd ar fwrdd. Teimlai sawl cyfranogwr fod y tâl a gynigir gan gyrff cyhoeddus Cymru yn is na'r hyn a gynigir yng ngwledydd eraill y DU.

[141] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 155
[142] Cofnod y Trafodion, 3 Mai 2023, paragraff 156

**234.** Amlygodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon, yn ei ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor hwn:

> *"Mae nifer o benodiadau cyhoeddus yng Nghymru yn derbyn tâl; ond nid eraill. Disgwylir i'r penderfyniad ynghylch pa rolau a gaiff dâl a pha rai sy'n ddi-dâl gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar sail cyfres o feini prawf sefydledig (h.y. maint y sefydliad, trosiant ariannol, nifer y staff a gyflogir ac ati). Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr hyn a allai fod yn ddull anghyson mewn un sefydliad, ac o'r herwydd byddai'n argymell cynnal adolygiad ehangach rhag ofn y bydd enghreifftiau eraill mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae rôl Llywydd Amgueddfa Cymru yn rôl gyflogedig; mae swydd yr Is-Lywydd yn ddi-dâl. Mae rolau'r Is-gadeirydd mewn sefydliadau eraill yn aml yn cael tâl, er eu bod ar gyfradd is i gyfradd y Cadeirydd, i gydnabod y gwahaniaeth yn lefel y cyfrifoldeb. Yn yr enghraifft y cyfeirir ati, mae'r Pwyllgor o'r farn bod gorgyffwrdd sylweddol yn y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer y ddwy rôl. Drwy beidio â rhoi tâl i rôl yr Is-Lywydd, pryder yr aelodau yw y gallai gael effaith ar amrywiaeth yr ymgeiswyr a allai wneud cais am y rôl h.y. dim ond y rhai allai fforddio ei wneud yn ddi-dâl fydd yn ymgeisio."*

## Ein barn ni

**235.** Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhai gwelliannau y gellid eu gwneud i'r broses recriwtio ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Gan ddechrau gyda datblygu cyflenwad o dalent y nodwn iddo gael ei gynnwys fel cam gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Blwyddyn 1 Llywodraeth Cymru a Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru.

**236.** Cyflwynwyd nifer o gamau i ddatblygu talent, gan gynnwys rhaglenni hyfforddi a chreu cronfa dalent. Fodd bynnag, clywsom gan dystion fod rhaglenni cysgodi a hyfforddi yn ddefnyddiol o ran datblygu talent ond ni allai Swyddogion Llywodraeth Cymru ddweud wrthym sut yr oedd cyfleoedd cysgodi yn cael eu hyrwyddo a beth yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddenu'r ymgeiswyr gorau a'r rhai y tu allan i Gaerdydd.

**237.** Nodwn fod 15 o raddedigion rhaglenni Arwain Parod ac Arweinwyr Cyhoeddus y Dyfodol Llywodraeth Cymru ar fin cael eu paru â Byrddau a dechrau mynychu cyfarfodydd Bwrdd ym mis Mawrth 2025. Edrychwn ymlaen at gael diweddariad ar gynnydd y graddedigion.

**Argymhelliad 13.** Roeddem yn dal heb ein hargyhoeddi bod digon yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyflenwad o dalent ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella ei dull o annog a chefnogi unigolion i wneud cais am benodiadau cyhoeddus. Gallai hyn gynnwys mwy o gyfleoedd cysgodi a mabwysiadu dull ehangach, mwy cynhwysol o hyrwyddo'r penodiadau sydd ar gael.

**238.** Mae gennym bryderon difrifol am y broses ymgeisio ar gyfer penodiadau cyhoeddus a chlywsom gan sawl tyst fod y broses ei hun yn creu rhwystrau i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Cyfeiriodd tystion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol at y 'grefft' o wneud cais am benodiad cyhoeddus a sut y mae ceisio sicrhau eu bod yn cyfateb â meini prawf manyleb y rôl mewn ffordd benodol yn llesteirio'r broses o sicrhau amrywiaeth o ran yr ymgeiswyr.

**239.** Dywedodd llawer o dystion wrthym fod angen i gyrff recriwtio gynnwys 'profiad bywyd' a chanolbwyntio ar dalent ac amrywiaeth fel y gellir dod â gwahanol sgiliau i gyfansoddiad byrddau.

**240.** Rydym yn bryderus iawn o glywed gan dystion bod diffyg ymwybyddiaeth yn Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru o ba addasiadau rhesymol y gellir eu cynnig i ymgeiswyr sydd eu hangen. Mae'n ymddangos bod diffyg camau rhagweithiol gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus ynghylch pa addasiadau y gellir eu cynnig ac rydym yn bryderus bod y cyfrifoldeb wedi cael ei roi ar ysgwyddau ymgeiswyr i wneud awgrymiadau a chanfod atebion ar yr hyn sydd angen ei addasu. Efallai na fydd gan rai ymgeiswyr yr hyder i wneud yr awgrymiadau hyn neu efallai na fyddant yn gwybod eu bod yn gallu gwneud hynny, sy'n golygu eu bod mewn perygl o beidio â gwneud cais am rolau neu gael eu rhoi dan anfantais annheg yn ystod y broses recriwtio.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith i wella ei hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyfystyr ag addasiad rhesymol a mabwysiadu dull rhagweithiol o ddarparu opsiynau lluosog i ymgeiswyr o ran yr addasiadau sydd eu hangen arnynt. Gofynnwn am ddiweddariad ar y gwaith hwn gan gynnwys manylion yr opsiynau sydd ar gael ymhen 6 mis.

**241.** Rydym yn bryderus iawn, er gwaethaf bwriadau Llywodraeth Cymru i wneud y broses penodiadau cyhoeddus yn fwy hygyrch, mai araf fu'r cynnydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn a nodwn fod Swyddogion yn ymgysylltu ag arbenigwr allanol drwy grŵp atebolrwydd 'Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-

hiliol'. Fodd bynnag, credwn fod angen gweithredu ar fyrder yn y maes hwn ac y dylid ymdrechu i wneud y broses yn fwy hygyrch.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen yn gyflymach â'i gwaith i wella hygyrchedd y broses recriwtio ar gyfer penodiadau cyhoeddus a hoffem gael diweddariad ar allbynnau ei gwaith gyda grŵp atebolrwydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol cyn gynted â phosibl.

**242.** Credwn fod adborth ar ôl gwneud cais ac ar ôl cael cyfweliad yn hanfodol i annog pobl i ymgeisio yn y dyfodol ac i helpu ymgeiswyr aflwyddiannus i wella eu sgiliau. Rydym yn siomedig nad oes digon yn cael ei wneud i annog unigolion i ailymgeisio pan fyddant yn aflwyddiannus. Clywsom am enghraifft benodol lle nad oedd ymgeiswyr wedi cael adborth hyd yn oed ar ôl iddynt ofyn amdano.

**243.** Roedd yn ymddangos bod gan Gynllun Gweithredu Blwyddyn 1 (2020-21) Llywodraeth Cymru ar gyfer y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru fwriadau da gyda nifer o nodau wedi'u pennu ar gyfer darparu adborth ystyrlon. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cyd-fynd â'r hyn a glywsom gan dystion ac rydym yn pryderu am ddiffyg ac ansawdd yr adborth a ddarperir i ymgeiswyr aflwyddiannus.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull o ddarparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ar gyfer penodiadau cyhoeddus a gofynnwn i fanylion gael eu darparu inni ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adborth yn gyson a bod hyfforddiant safonol yn cael ei ddarparu i baneli recriwtio ar yr hyn sy'n gyfystyr ag arferion da yn y maes hwn.

**244.** Roedd y dystiolaeth a glywsom yn nodi'n glir bod tâl yn ffactor arwyddocaol o ran cynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus. Dywedodd y rhan fwyaf o'r tystion wrthym fod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn debygol o gael eu heffeithio'n anghymesur gan dâl isel, a'i fod yn cyfyngu ar gyfranogiad y rhai â dibynyddion a chyfrifoldebau gofalu.

**245.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod mai "dim ond y rheini ar gyflog a phensiwn da sy'n gallu ymgeisio". Roedd y Strategaeth hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o dâl aelodau Bwrdd. Nid yw'n glir a yw'r adolygiad wedi dod i ben.

**246.** Clywsom hefyd gan amrywiaeth o dystion nad oedd y tâl am benodiadau cyhoeddus yn adlewyrchu'r ymrwymiad amser sydd ei angen ar y swyddi hyn a bod y llwyth gwaith yn aml yn wahanol i'r hyn a nodir yn y swydd-ddisgrifiad.

**Argymhelliad 17.** Mae tâl yn amlwg yn rhwystr i fwy o bobl ymgeisio am benodiadau cyhoeddus ac rydym yn argymell ein bod yn cael diweddariad ar gynnydd ac allbynnau adolygiad Llywodraeth Cymru o Dâl Aelodau Bwrdd.

# 6. Penodiadau Cyhoeddus gan y Senedd

## Penodiadau Cyhoeddus y Senedd

**247.** Mae'r Senedd yn gyfrifol am nifer bach o benodiadau cyhoeddus yng Nghymru[143]. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Penodiadau'r Goron a enwebir gan y Senedd, sy'n cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Penodiadau'r Senedd, megis y Comisiynydd Safonau a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.

**248.** Mae'r Rheolau Sefydlog yn amlinellu rheolau a gweithdrefnau'r Senedd[144]. Mae Rheol Sefydlog 10 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer penodi unigolion i swyddi cyhoeddus, pan fo'n rhaid i'r penodiad gael ei wneud gan y Senedd, ar sail enwebiad neu argymhelliad y Senedd neu gyda chymeradwyaeth y Senedd. Ceir hefyd Reolau Sefydlog penodol sydd yn ymwneud â'r penodiadau cyhoeddus hyn fel Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## Y broses benodi

**249.** Bydd pwyllgor yn rhan o'r broses fel arfer, ond mae'r broses benodi'n amrywio yn dibynnu ar y rôl sy'n cael ei llenwi[145].

**250.** Yn achlysurol, bydd pwyllgor yn gyfrifol am gynnal y broses recriwtio a chynghori'r Senedd ar y penodiad/enwebiad a ffefrir. Gall pwyllgor gynnal gwrandawiad cyn penodi neu wrandawiad cyn enwebu cyn i'r Senedd ystyried y mater.

**251.** Wrth ddisgrifio proses penodiadau cyhoeddus Comisiwn y Senedd, esboniodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:

> *"The role of Senedd Commission staff varies according to the Senedd's role in any given recruitment process. So, for example, the Finance Committee, of course, is responsible for oversight of the Wales Audit Office and the Public Services Ombudsman for Wales. Therefore, the*

[143] Penodiadau Cyhoeddus y Senedd
[144] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Medi 2024
[145] Penodiadau Cyhoeddus y Senedd

> *role of the Finance Committee there involves nominating a preferred candidate for Auditor General, and also for the role of ombudsman. It then also appoints non-executive members of the Wales Audit Office board and recommends the appointment of its chair. So, under those circumstances, what Senedd Commission staff do is provide a secretariat for those processes, occasionally a senior member of staff to help with the panel duties. We would advise on recruitment strategies, including the use of executive search agencies, if that was the committee's preference. It's a similar process then in supporting the standards committee, who have the responsibility of deciding on a preferred candidate for the standards commissioner role, which is then appointed by the whole Senedd. So, our role as Commission staff is basically one of support and administrative backup and advice. We support committees in the same way when they undertake pre-appointment hearings"*[146].

**252.** Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y Comisiwn yn ymwneud yn fwy dwys â dau gategori arall o benodiadau h.y. aelodau o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a chynghorwyr annibynnol y Comisiwn[147].

**253.** Gofynnwyd a oedd gan Gomisiwn y Senedd unrhyw weithdrefnau i gefnogi pwyllgorau i hwyluso'r broses o recriwtio i benodiadau'r Goron a'r Senedd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr egwyddorion recriwtio y mae'r Comisiwn yn eu defnyddio ar draws penodiadau staff yn debyg i egwyddorion Swyddfa'r Cabinet. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori egwyddorion Nolan. Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai cyfrifoldeb y pwyllgor dan sylw yw penodiadau i bwyllgorau, ond byddai'r Comisiwn yn darparu'r cymorth sydd ei angen arnynt mewn unrhyw broses recriwtio benodol[148].

## Adolygiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o benodiadau cyhoeddus Comisiwn y Senedd

**254.** Comisiwn y Senedd yw'r corff corfforaethol ar gyfer y Senedd ac mae'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i'r Senedd er mwyn iddi allu cyflawni ei swyddogaeth.

---

[146] Cofnod y Trafodion, para 235, 9 Hydref 2014
[147] Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2024, paragraff 147
[148] Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2024, paragraff 149

**255.** Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg[149] Comisiwn y Senedd yn gweithredu mewn capasiti cynghori (nid oes ganddo bwerau gweithredol). Rhan o rôl y pwyllgor hwn yw archwilio a rhoi sicrwydd ynghylch "pa mor ddigonol yw ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan yr archwilio mewnol ac allanol"[150].

**256.** Nododd Cynllun archwilio mewnol Comisiwn y Senedd 2023-24[151] y byddai'r gwasanaeth archwilio mewnol, ym mis Tachwedd 2023, yn cynnal adolygiad archwilio o'r systemau a'r prosesau sydd ar waith i gefnogi Pwyllgorau yn eu rolau mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus. Nododd fod risgiau i enw da a gwerth am arian yn gysylltiedig â'r maes hwn os nad yw'r broses yn cael ei rheoli'n dda ac os nad yw'n effeithlon. Y targed oedd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ystyried canlyniadau gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol ym mis Chwefror 2024.

**257.** Ar 19 Chwefror 2024, dywedwyd wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod yr archwiliad o benodiadau cyhoeddus yn parhau[152].

**258.** Yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24 (Gorffennaf 2024)[153], cadarnhaodd Comisiwn y Senedd ei fod wedi cwblhau archwiliad mewnol ar benodiadau cyhoeddus. Nododd "ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol" yn yr adroddiadau archwilio yn ystod y flwyddyn, ond dywedodd "lle caiff gwendidau neu faterion eu nodi, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio".

**259.** Nid yw Adroddiadau Blynyddol 2023-24 y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg na Chomisiwn y Senedd yn cynnwys unrhyw fanylion am ganfyddiadau archwilio mewnol, gan gynnwys lefel y sicrwydd a roddwyd. Nid ydynt ychwaith yn cadarnhau a wnaeth y gwasanaeth archwilio mewnol argymhellion i'r Senedd i wella ei threfniadau, p'un a gafodd y rhain eu derbyn gan y rheolwyr ac a ydynt wedi cael eu rhoi ar waith.

**260.** Fe wnaethom nodi bod cynllun archwilio mewnol Comisiwn y Senedd 2023-24 yn dweud y byddai'n cynnal adolygiad archwilio o'r systemau a'r prosesau sydd ar waith i gefnogi Pwyllgorau yn eu rolau mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus. Gofynnwyd beth oedd canlyniad yr archwiliad, a pha sicrwydd a

[149] Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd
[150] Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd
[151] Cynllun Archwilio Mewnol Comisiwn y Senedd 2023-24 [Nid yw ar gael ar-lein bellach]
[152] Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd - 19 Chwefror 2024
[153] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd 2023-24

roddodd fod y systemau a'r prosesau sydd ar waith yn addas at y diben ac yn dangos gwerth am arian.

**261.** Dywedodd y Prif Weithredwr wrthym fod canlyniadau'r archwiliad ar gael ym mis Chwefror 2024 a'u bod yn canolbwyntio ar rôl staff y Comisiwn ac a oedd unrhyw welliannau y gallem eu gwneud yno. Eglurodd fod yr asesiad yn galonogol, ond roedd rhai pwyntiau i weithredu arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys egluro'r berthynas rhwng amrywiol dimau staff y Comisiwn yn y broses recriwtio—clercod y pwyllgorau, y timau adnoddau dynol a'r timau cyllid a oedd ynghlwm â'r broses. At hynny, roedd angen i'r Comisiwn bennu dangosyddion perfformiad allweddol clir o'r cychwyn a chynnal gwerthusiadau ffurfiol ar ôl pob ymgyrch recriwtio i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu[154].

**262.** Ychwanegodd y Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd mai gwers allweddol oedd i ffurfioli'r ymarferion dysgu gwersi hynny a gwneud yn siŵr bod y timau amrywiol sy'n ymwneud â chefnogi pwyllgorau gyda'r penodiadau yn siarad â'i gilydd am, er enghraifft, rôl chwilio gweithredol a dulliau recriwtio eraill i wella amrywiaeth ymysg ymgeiswyr. Roeddem yn falch o glywed y gweithredwyd ar yr holl argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad archwilio mewnol[155].

## Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Comisiwn y Senedd 2022-26

**263.** Mae Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Comisiwn y Senedd: 2022-26 (Mehefin 2023) yn dweud:

> *"Pan fyddwn yn rhoi ymgyrchoedd recriwtio ar gontract allanol ar gyfer uwch gydweithwyr y Comisiwn ac ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus/y Goron (mae gennym gyfrifoldeb am reoli ymgyrchoedd a phenodiadau ar eu cyfer) rydym yn gweithio gyda'n partneriaid chwilio gweithredol i ehangu'r ffynonellau talent, ochr yn ochr â'n trefniadau hysbysebu ac allgymorth arferol. Byddwn yn casglu ac yn dadansoddi data amrywiaeth gyda'r ymgyrchoedd hyn i lywio'r gwaith o gynllunio ymgyrchoedd a, lle y bo'n briodol, yn cyhoeddi'r data hwn, yn unol â chyfraith diogelu data."*[156]

[154] Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2024, paragraff 152
[155] Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2024, paragraff 153
[156] Comisiwn y Senedd - Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant: 2022-26, Mehefin 2023

**264.** Dywedodd y Comisiwn y bydd yn defnyddio data o'i ymgyrchoedd recriwtio i ganfod a yw'n gwneud cynnydd i sicrhau bod y cyflenwadau o dalent ar gyfer penodiadau Cyhoeddus/y Goron ac uwch "yn amrywiol [a bod] prosesau wedi'u mireinio ar gyfer cynhwysiant a chyrraedd y gynulleidfa ehangaf (amrywiaeth y panel, allgymorth a chynllunio prosesau)"[157].

**265.** Mae Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2023-24 Comisiwn y Senedd yn nodi bod ei Dîm Recriwtio, mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus a'r Goron, yn parhau i weithio mewn "partneriaeth ag asiantaeth chwilio weithredol i amrywio'r ffrydiau talent a'r paneli"[158]. Cyn diwedd cyfnod ei Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, dywedodd y Comisiwn ei fod am "[g]asglu a dadansoddi data ar fewnwelediadau amrywiaeth recriwtio ar gyfer penodiadau cyhoeddus/y Goron a gynhelir gan Gomisiwn y Senedd."[159]

**266.** Fe wnaethom ofyn i Swyddogion Comisiwn y Senedd sut y byddent yn asesu effeithiolrwydd Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn, hyd yma, o ran sicrhau bod y cyflenwadau o dalent ar gyfer penodiadau Cyhoeddus/y Goron yn "amrywiol ac mae prosesau wedi'u mireinio ar gyfer cynhwysiant a chyrraedd y gynulleidfa ehangaf". Roeddem hefyd eisiau gwybod o dan ba amgylchiadau y byddai staff y Comisiwn yn argymell defnyddio asiantaethau chwilio gweithredol ar gyfer ymgyrchoedd recriwtio, sut y byddent yn penderfynu pa asiantaeth i'w defnyddio ac a yw effeithiolrwydd a gwerth am arian yr asiantaethau hyn yn cael eu hasesu.

**267.** Eglurodd y Prif Swyddog Pobl mai dim ond pedair ymgyrch recriwtio yr oedd y Comisiwn wedi'u cynnal[160] hyd yn hyn ac er bod data ar amrywiaeth wedi'u casglu ar y rheini nid oes llawer o ddata i weithio ohono. Fodd bynnag, esboniodd:

> *"… what the data is telling us from those initial datasets is that there is a lot of room for improvement there, particularly in appointing women into these positions, those from ethnic minority backgrounds, and, in particular, disabled people"[161].*

**268.** Dywedodd y Prif Swyddog Pobl wrthym fod Comisiwn y Senedd yn defnyddio asiantaethau chwilio gweithredol ac mai'r pwyllgorau unigol sy'n

---

[157] Comisiwn y Senedd - Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant: 2022-26, Mehefin 2023, tudalen 34
[158] Comisiwn y Senedd - Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2023-24, tudalen 17
[159] Comisiwn y Senedd - Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2023-24, tudalen 81
[160] Roedd y rhain yn cynnwys dau benodiad i Archwilio Cymru, un i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chynghorydd annibynnol ar gyfer Comisiwn y Senedd.
[161] Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2024, paragraff 162

gyfrifol am ddefnyddio'r rhain. Er enghraifft, os ydynt yn benodiadau a arweinir gan bwyllgor, cynhelir ymarfer gwerth am arian, er enghraifft:

> *"… for the last Audit Wales appointments that were undertaken, the decision was made not to use an executive search agency, but from the rudimentary—and it is rudimentary—data that we've got, it does demonstrate, it does show, that when we have used executive search agencies, it does provide for better outcomes in terms of progressing diversity through that process"*[162].

**269.** O ran y cymorth a ddarperir i Bwyllgorau, mae swyddogion yn cynghori ar ddefnyddio pecynnau ymgeiswyr niwtral o ran rhywedd, gan wneud yn siŵr eu bod mor gynhwysol â phosibl. Clywsom fod y Comisiwn wrthi'n diweddaru ei dudalennau mewnrwyd ar benodiadau cyhoeddus er mwyn defnyddio straeon a arweinir gan gymheiriaid gan ddefnyddio unigolion go iawn i roi trosolwg i ddarpar benodeion o sut brofiad yw bod yn aelod o fwrdd, er mwyn ceisio ymestyn allan at yr ymgeiswyr hynny na fyddent yn meddwl y gallent fod yn aelod o fwrdd, fel eu bod yn gallu uniaethu â hynny[163].

## Rôl y Pwyllgor Cyllid ym mhenodiadau cyhoeddus y Senedd

**270.** Y Pwyllgor Cyllid yw'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru (Rheol Sefydlog 18) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Rheol Sefydlog 18A). Yn ei ymateb i alwad y Pwyllgor hwn am dystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i benodiadau cyhoeddus, eglurodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod ei rôl yn cynnwys enwebu'r ymgeiswyr a ffefrir ar gyfer y rolau hyn (i'w penodi gan y Goron), yn ogystal â phenodi Aelodau Anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac argymell pwy y dylid ei benodi'n Gadeirydd.

**271.** Hyd yn hyn, yn ystod y Chweched Senedd, cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ei fod wedi bod yn gyfrifol am enwebu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a phenodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Dywedodd y Cadeirydd fod y penodiadau hyn yn "gadarn" ac "wedi denu amrywiaeth eang o ymgeiswyr o ansawdd, ac wedi arwain at ganlyniadau a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol yn y Senedd".

[162] Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2024, paragraff 163
[163] Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2024, paragraff 164

**272.** Barn y Pwyllgor Cyllid yw y dylai penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a'r Senedd gael eu "llywodraethu gan gyfres gyson o egwyddorion." Ychwanegodd y Cadeirydd:

> *"Mae democratiaeth iach yn gofyn am broses agored, dryloyw a theg ar gyfer penodi i uwch rolau cyhoeddus… dylai'r gwerthoedd hyn fod wrth wraidd y ffordd y caiff penodiadau o'r fath eu gwneud yng Nghymru".*

**273.** Er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr gorau yn cael eu penodi a bod "ymddiriedaeth ac uniondeb" yn system penodiadau cyhoeddus Cymru yn cael eu cynnal, dywedodd y Pwyllgor Cyllid ei bod yn hanfodol bod y swyddi hyn yn "parhau i ddenu ymgeiswyr o safon uchel o amrywiaeth o gefndiroedd, fel bod y rhai a benodir yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu".

## Ein barn ni

**274.** Nodwn fod Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am nifer fach o benodiadau cyhoeddus yng Nghymru ond mae'r rhain yn rolau pwysig iawn ac iddynt statws uchel. Rydym yn falch bod gan y Comisiwn weithdrefnau cadarn ar waith i hwyluso recriwtio i'r rolau hyn gan gynnwys cymhwyso egwyddorion Nolan.

**275.** Rydym yn falch bod Comisiwn y Senedd wedi cynnal adolygiad archwilio mewnol o'r systemau a'r prosesau sydd ar waith i gefnogi Pwyllgorau yn eu rolau mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus a bod y canfyddiadau'n galonogol. Rydym hefyd yn falch bod camau wedi'u cymryd i wneud gwelliannau ble roedd angen. Cawn ein calonogi hefyd gan ddull Comisiwn y Senedd o ymdrin ag Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn perthynas â'i benodiadau cyhoeddus. Rydym yn hyderus bod y Comisiwn yn monitro data ar amrywiaeth mewn recriwtio ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod ei brosesau recriwtio yn eang eu cyrhaeddiad ac yn gynhwysol.

**276.** Mae'r cymorth y mae'r Comisiwn yn ei roi i Bwyllgorau sy'n gwneud penodiadau cyhoeddus yn galonogol ac edrychwn ymlaen at weld y tudalennau mewnrwyd wedi'u diweddaru sy'n amlygu astudiaethau achos o benodiadau cyhoeddus.

**277.** Nodwn rôl bwysig Pwyllgor Cyllid y Senedd o ran enwebu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a phenodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal ag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**278.** Rydym yn cydnabod y pwynt a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid y dylai penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a'r Senedd gael eu "llywodraethu gan gyfres gyson o egwyddorion." Dyma farn yr ydym yn ei rhannu gan y credwn y byddai'n gwella tryloywder a dealltwriaeth y cyhoedd o'r broses penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

# 7. Gwrandawiadau Cyn Penodi

## Cefndir

**279.** Ers 2019 mae'r Senedd wedi cael gwahoddiad i gynnal gwrandawiadau cyn penodi i graffu ar rai o ymgeiswyr Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

**280.** Roedd sicrhau bod gwrandawiadau cyn penodi yn rhan arferol o'r broses benodi ar gyfer cadeiryddion cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ymrwymiad a wnaed gan y Prif Weinidog Mark Drakeford yn ei faniffesto cyn dod yn arweinydd Plaid Lafur Cymru yn 2018. Y bwriad yw gwella'r gwaith craffu a thryloywder y broses penodiadau cyhoeddus.

**281.** Mae'r gwaith craffu cyn penodi yn golygu bod ymgeisydd a ffefrir yn cael ei holi gan Bwyllgor perthnasol y Senedd. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad, fel arfer o fewn 48 awr i'r gwrandawiad, yn nodi ei farn ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd.

**282.** Y rolau a ystyrir yn addas ar gyfer gwaith craffu o'r fath fel arfer fyddai:

- y rhai o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd;
- y rhai a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y cyhoedd; a'r
- rhai a fyddai'n cyfrannu'n sylweddol at hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru.

**283.** Mae enghreifftiau'n cynnwys cadeiryddion cyrff diwylliannol yng Nghymru, byrddau iechyd a'r Comisiynwyr Plant, Pobl Hŷn, y Gymraeg a Chenedlaethau'r Dyfodol.

**284.** Mae protocol y cytunwyd arno rhwng y Llywydd a'r Prif Weinidog mewn perthynas â gwrandawiadau cyn penodi sy'n cynnwys rhestr o benodiadau sy'n ddarostyngedig (yn ôl disgresiwn y pwyllgorau) i wrandawiadau cyn penodi.[164] Mae hefyd yn gwneud darpariaeth i bwyllgorau wneud cais i gynnal gwrandawiad cyn penodi ar gyfer swyddi nad ydynt ar y rhestr ond y mae'r pwyllgor perthnasol yn ystyried eu bod o bwys mawr i'r cyhoedd neu'n cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Mae'r protocol yn darparu bod y Gweinidog yn gallu cytuno i geisiadau o'r fath neu eu gwrthod.

[164] Gwrandawiad cyn penodi gan Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**285.** Fel rhan o'n hymgynghoriad ar gyfer ein hymchwiliad, gofynnwyd am farn Pwyllgorau'r Senedd ar y broses cyn penodi.

### Y Broses Gwrandawiad Cyn Penodi

**286.** Dywedodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrthym fod rôl y Pwyllgorau yn y broses penodiadau cyhoeddus yn gyfyngedig, gan nodi:

> *"Er bod gan waith craffu cyn penodi rôl bwysig o ran tryloywder (fel y nodir uchod), ni all ac ni ddylai ddisodli, neu gael ei weld yn disodli, proses recriwtio gadarn a thryloyw. Felly, rydym wedi bod yn ofalus i sicrhau bod yr argymhellion yr ydym wedi'u gwneud mewn adroddiadau gwrandawiadau cyn penodi wedi'u fframio i adlewyrchu'r rôl gyfyngedig hon."*[165]

**287.** Awgrymodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws penodiadau, a sicrhau bod rolau pwyllgorau'n cael eu deall yn well, y dylai Fforwm y Cadeiryddion drafod y mater hwn ymhellach gyda'r nod o gytuno ar eiriad safonol y gellid ei ddefnyddio pan fo pwyllgorau'n fodlon nad ydynt wedi gweld unrhyw reswm pam na ddylid penodi ymgeisydd.

**288.** Tynnodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sylw hefyd at bryderon ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i ddenu digon o ymgeiswyr addas. Roedd ei lythyr atom yn egluro bod y pwyllgor a'i rhagflaenodd yn y Pumed Senedd wedi cynnal gwrandawiad cyn penodi ar gyfer rôl cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Roedd angen ail-hysbysebu'r swydd oherwydd diffyg ymgeiswyr a oedd yn addas i'w cyfweld.

**289.** Yn ogystal â dod i gasgliad ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir, cododd Pwyllgor y Bumed Senedd dri mater ehangach gyda'r broses penodiadau cyhoeddus:

- Yr angen i ehangu'r ystod o lwyfannau neu allfeydd a ddefnyddir i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer penodiadau cyhoeddus.
- Y defnydd o ymgyngoriaethau chwilio.
- Yr angen i nodi, dadansoddi a mynd i'r afael â rhwystrau posibl i ddarpar ymgeiswyr.

[165] Gohebiaeth gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 27 Ionawr 2023

**290.** Yn ei ymateb i adroddiad Pwyllgor y Pumed Senedd, cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd bod y ffaith y bu'n rhaid ail-hysbysebu'r swydd yn siom, a nododd fod Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru wedi'i lansio ym mis Chwefror 2020 a'i nod fyddai: "datblygu llif o benodiadau cyhoeddus cadarn drwy brosesau asesu penodiadau cyhoeddus sy'n agored, yn gadarn ac o bosibl, yn newydd. Wrth ddatblygu'r llif hwn, gwneir gwaith allgymorth wedi'i dargedu er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddenu talent newydd. Caiff rhaglenni mentora, cysgodi a hyfforddi hefyd eu datblygu i gefnogi'r rheini sydd â diddordeb mewn bod yn aelodau o'r bwrdd."

**291.** Yn ystod haf 2021, daeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwybodol o hysbyseb ar gyfer Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg nad oedd yn cyfeirio o gwbl at y posibilrwydd o gynnal gwrandawiad cyn penodi. Mae'r Pwyllgor yn deall bod hyn oherwydd pryderon o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch amserlenni. Yn y pen draw, ni ddenodd yr ymarfer recriwtio ystod addas o ymgeiswyr, a gwnaeth y Gweinidog benodiad interim yn lle hynny. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig ym mis Medi 2021.

**292.** Cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrandawiad ar ôl penodi gyda'r Cadeirydd interim ym mis Tachwedd 2021. Yn dilyn y gwrandawiad, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog yn mynegi siom bod penodiad interim wedi bod yn angenrheidiol a chodwyd nifer o bwyntiau'n ymwneud â'r broses penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rolau tebyg yn denu ystod amrywiol o ymgeiswyr o ansawdd uchel yn y dyfodol.

**293.** Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog ar y pryd ei bod yn rhannu "siom y Pwyllgor ynglŷn â denu unigolion o ansawdd uchel i geisio am y swyddi hynod bwysig hyn sydd wedi arwain, yn yr achos hwn, at benodiad interim". Aeth ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal ymarferion penodiadau cyhoeddus drwy gystadleuaeth deg ac agored yn unol â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus, ac mae wedi cymryd camau i ymestyn cyrhaeddiad gweithgarwch cyhoeddusrwydd penodiadau cyhoeddus gan gynnwys targedu cynulleidfaoedd amrywiol ac ymgysylltu â hwy.

**294.** Dywedodd ymhellach fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i edrych ar gynllunio olyniaeth ar gyfer uwch swyddi arwain yn y GIG yng Nghymru.

**295.** Amlygodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith hefyd bryderon ynghylch y broses gwrandawiad cyn penodi a ddeilliodd o'r gwrandawiad cyn penodi a gynhaliwyd gyda'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth

Cymru ar gyfer swydd Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ym mis Medi 2021.[166]

**296.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod yr ymgeisydd a ffefrir yn berson addas a phriodol i'w benodi'n Gadeirydd y Comisiwn. Fodd bynnag, darparodd Llywodraeth Cymru nodyn i'r Pwyllgor a oedd yn datgan, "Nododd ymgyrch recriwtio flaenorol i benodi cadeirydd parhaol, a gynhaliwyd yn hydref 2019, nifer o ymgeiswyr y gellir eu penodi".

**297.** Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd wrth y Pwyllgor na fu proses ymgeisio agored ar gyfer y rôl y tro hwn. Rheswm y Dirprwy Weinidog am hynny oedd bod y Comisiwn wedi "colli rhywfaint o fomentwm dros y flwyddyn ddiwethaf" ac y gallai ymgyrch recriwtio hir "waethygu yr ansicrwydd" ynghylch diben y Comisiwn.

**298.** Teimlai'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y dylai rolau fel hyn fod yn amodol ar broses recriwtio agored oni bai bod rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny gan nodi:

> *"Bydd proses recriwtio agored yn sicrhau bod y gronfa o ymgeiswyr yn cynnwys yr ymgeiswyr gorau o amrywiaeth o gefndiroedd. Pe bai mwy nag un ymgeisydd addas yn cael ei nodi drwy'r ymarfer recriwtio yn 2019, mae'n ansicr pam na chawsant gyfle i wneud cais am y swydd hon y tro hwn. At hynny, mae'n bosibl bod nifer o ymgeiswyr eraill y gellir eu penodi wedi dod i'r amlwg yn y ddwy flynedd a aeth heibio ers yr ymarfer recriwtio cychwynnol."*[167]

**299.** Dywedodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wrthym hefyd fod yr ymgeisydd a ffefrir wedi hysbysu'r Pwyllgor yn ystod y gwrandawiad cyn penodi ei fod eisoes wedi dechrau ar ei ddyletswyddau fel Cadeirydd. Er bod y Pwyllgor yn deall y brys i benodi Cadeirydd ar gyfer y Comisiwn, roedd yn teimlo bod y ffaith bod y penodiad wedi'i wneud cyn y gwrandawiad cyn penodi yn codi pryderon ynghylch uniondeb y broses.

**Ailbenodi swydd-ddeiliaid presennol i benodiadau cyhoeddus pwysig.**

**300.** Dywedodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (y Pwyllgor Diwylliant) wrthym y bydd Llywodraeth Cymru, ar adegau, yn ailbenodi swydd-ddeiliaid presennol i swyddi penodiadau

166 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd ac Isadeiledd, 24 Ionawr 2023
167 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd ac Isadeiledd, 24 Ionawr 2023

cyhoeddus. Nid yw ailbenodiadau o'r fath yn destun y broses gwrandawiad cyn penodi. Mewn rhai achosion, lle y gwnaed y penodiad cyntaf cyn 2019, ni fydd unigolion yn y swyddi hynny wedi bod yn destun gwaith craffu cyn penodi gan y Senedd chwaith.

**301.** Er mwyn gwella'r broses graffu a thryloywder penodiadau cyhoeddus pwysig, mae'r Pwyllgor Diwylliant yn argymell bod Llywodraeth Cymru, pan fo ailbenodiadau'n cael eu gwneud, yn ysgrifennu at y pwyllgor perthnasol gan nodi'r rheswm/rhesymau dros wneud hynny. Byddai hyn yr un mor berthnasol i benodiadau a wnaed cyn ac ar ôl cychwyn gwaith craffu cyn penodi ar gyfer penodiadau cyhoeddus pwysig (h.y. cyn ac ar ôl 2019).

**Protocol Rhwng y Prif Weinidog a'r Llywydd**

**302.** Dywedodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wrthym y dylid adolygu'r trefniant y cytunwyd arno rhwng y Prif Weinidog a'r Llywydd yn y Bumed Senedd yn 2016-2020, gan esbonio:

> *"Er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd, dylid newid y cytundeb i esbonio rôl a phwrpas gwrandawiadau a gwaith craffu cyn penodi'n gliriach. Gellid cryfhau'r trefniadau presennol i feithrin mwy o ymdeimlad o gydberchnogaeth o'r broses cyn penodi."*[168]

**303.** Dywedodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol hefyd ei bod yn werth nodi bod canllawiau cyfatebol ar lefel San Steffan yn pwysleisio ymgysylltu cynnar â Phwyllgorau Dethol mewn ffyrdd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cytundeb sy'n benodol i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys deialog gyda Chadeiryddion ynghylch yr amserlen a'r dull gweithredu arfaethedig cyn dechrau ymarfer recriwtio ac mae'n nodi:

> *"The Department should consult the Chair of the select committee about the proposed selection process before a recruitment exercise begins. This includes sharing the description and person specification, a proposed outline of the timetable for the campaign and any relevant information about the proposed advertising strategy."*[169]

[168] Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 2 Chwefror 2023
[169] Swyddfa'r Cabinet,Canllawiau Swyddfa'r Cabinet: craffu cyn penodi gan bwyllgorau dethol Tŷ'r Cyffredin (Saesneg yn unig)

**304.** Ar lefel fwy ymarferol, dywedodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (Y Pwyllgor Diwylliant) wrthym, yn seiliedig ar ei brofiad hyd yma, y dylai'r dogfennau canlynol gael eu darparu'n safonol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwrandawiadau cyn penodi:

- Ffurflen gais, curriculum vitae a datganiad personol yr ymgeisydd a ffefrir;
- Crynodeb dienw o broffil demograffig yr ymgeiswyr a ymgeisiodd am y swydd ac a aeth ymlaen drwy bob cam o'r broses recriwtio;
- Copi o'r pecyn gwybodaeth a ddarparwyd i bob ymgeisydd gan gynnwys disgrifiad swydd a manyleb person; a
- Gwybodaeth am sut a lle y cafodd y rôl ei hysbysebu.

**305.** Teimlai'r Pwyllgor Diwylliant fod y wybodaeth hon yn bwysig o ran caniatáu i bwyllgorau roi ystyriaeth lawn i gymhwyster yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer y rôl y mae'n ymgeisio amdani. Mae hefyd yn sicrhau bod pwyllgorau yn gallu gweld sut a lle y cafodd y swydd ei hysbysebu. Er enghraifft, er mwyn sicrhau y byddai ystod eang o ymgeiswyr wedi gallu gweld unrhyw hysbyseb am y swydd.[170]

**306.** Roedd y Pwyllgor Diwylliant yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn ceisio ffurfioli'r broses o rannu'r wybodaeth a amlinellir uchod a chytuno beth fyddai'n amserlen briodol i ddarparu'r wybodaeth hon h.y. un wythnos lawn cyn gwrandawiad cyn penodi.

## Ein barn ni

**307.** Rydym yn bryderus iawn ynghylch nifer yr enghreifftiau lle mae gwrandawiadau cyn penodi wedi'u cynnal lle mae ymgeiswyr wedi'u penodi heb broses recriwtio agored. Pryder arall oedd un enghraifft o ymgeisydd a ffefrir yn dechrau ar ei swydd cyn y gwrandawiad cyn penodi. Credwn fod hyn yn tanseilio uniondeb y broses yn ddifrifol ac nid yw'n caniatáu gwaith craffu priodol ar benodiadau o'r fath.

**308.** Mae hefyd yn destun pryder y bu achlysuron lle mae deiliaid presennol y swyddi wedi cael eu hailbenodi heb fod yn destun y broses cyn penodi. Nid yw

[170] Gohebiaeth gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, 23 Ionawr 2023

hyn yn agored nac yn dryloyw ac rydym yn cytuno â'r Pwyllgor Diwylliant bod angen newid y broses hon.

**Argymhelliad 18.** Pan wneir ailbenodiadau, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y pwyllgor perthnasol yn nodi'r rheswm/rhesymau dros wneud hynny.

**309.** Nodwn hefyd bryderon y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i ddenu digon o ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi cyhoeddus. Mae'r safbwyntiau hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a nodir yn yr adroddiad hwn a'r diffyg camau a gymerwyd i ymestyn cyrhaeddiad y cyhoeddusrwydd a roddir i benodiadau cyhoeddus gan gynnwys targedu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol.

**310.** Er gwaethaf ymateb y Gweinidogion ar y pryd i bryderon y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gyfeiriodd (ym mis Chwefror 2020) at y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn wedi canfod bod llawer o ddiffygion o ran cyflawni sawl agwedd sylfaenol ar strategaeth 2020-23. Mae ein hargymhellion yn yr adroddiad hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae gennym amheuon ynghylch y dull presennol o ymdrin â rolau Pwyllgorau'r Senedd mewn gwrandawiadau cyn penodi ar gyfer penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Nodwn fod protocol wedi bod ar waith rhwng y Llywydd a'r Prif Weinidog ers i Mark Drakeford ddod yn Brif Weinidog ond credwn fod angen ei adolygu, ei ddiweddaru a'i ffurfioli.

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i ddatblygu set o egwyddorion cyffredin i lywodraethu'r penodiadau cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt. Dylai'r rhain gynnwys rôl gwrandawiadau cyn penodi, ffurfioli'r broses o rannu gwybodaeth berthnasol ac amserlen briodol i gyflwyno'r wybodaeth hon h.y. un wythnos lawn cyn gwrandawiad cyn penodi.

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried a ddylai'r protocol presennol gael ei adolygu, ei ddiweddaru a'i godeiddio yn y Rheolau Sefydlog, fel y cytunodd y Llywydd a Mark Drakeford, y Prif Weinidog ar y pryd. Credwn y dylai corff priodol o fewn y Senedd gael rhywfaint o oruchwyliaeth dros y trefniadau ad hoc sy'n amrywio o benodiad i benodiad o ran ymwneud Pwyllgorau â phenodiadau cyhoeddus a arweinir gan Lywodraeth Cymru a chynrychiolaeth aelodau'r Pwyllgor ar baneli penodiadau a arweinir gan Lywodraeth Cymru.

# Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **15 Rhagfyr 2022** | **William Shawcross**<br>Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus |
| **3 Mai 2023** | **John Gallanders, Cyn-aelod annibynnol**<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>**John Cunliffe, Cyn-aelod annibynnol**<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>**Dr Rosetta Plummer**<br>Tyst annibynnol<br>**Shereen Williams, Prif Weithredwr**<br>Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru |
| **18 Mai 2023** | **Dr Doyin Atewologun, Prif Swyddog Gweithredol** Delta Leadership and Inclusion Consultancy<br>**Patel Chantal**<br>Tyst annibynnol<br>**Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Emma Williams, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Stuart Fitzgerald, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cartref a Lleoedd**<br>Llywodraeth Cymru |
| **7 Mehefin 2023** | **Damian Bridgeman**<br>Gofal Cymdeithasol Cymru |
| **23 Tachwedd 2023** | **Ian Bruce**<br>Comisiynydd Safonau Moesegol yr Alban |
| **14 Rhagfyr 2023** | **Tim Moss, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu**<br>Llywodraeth Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
| --- | --- |
| | **Kathryn Jenkins, Prif Swyddog Diogelwch**<br>Llywodraeth Cymru |
| **17 Hydref 2024** | **Tim Moss, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Dominic Houlihan, Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd**<br>Llywodraeth Cymru |